

# Adolygiad o Raglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2016-2022

Adroddiad terfynol

---

Cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Ymchwil  
Arad

*Cyhoeddwyd Hydref 2022*

Ymchwil Arad  
8 Rhodfa Columbus  
Maes Brigantîn  
Caerdydd CF10 4SD  
029 2044 0552  
[www.arad.cymru](http://www.arad.cymru)

ymchwil  
arad  
research

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

©GL © Hawlfraint y Goron 2022 ISBN ddigiol 978-1-80535-060-6

# Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b> .....	<b>4</b>
<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>10</b>
1.1 Cefndir y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid .....	10
1.2 Nodau'r adolygiad.....	11
1.3 Ein dull gweithredu .....	12
<b>2. Adolygiad o Bolisïau</b> .....	<b>15</b>
<b>3. Y prif ganfyddiadau ynghylch effaith y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid</b> .....	<b>18</b>
Gwasanaethau Menter leuencid Syniadau Mawr Cymru .....	18
Gweithgareddau a ariennir gan grantiau AB/AU .....	18
3.1 Sut y mae gwasanaethau cyflawni yn cefnogi'r 4 elfen .....	19
3.2 Gwasanaethau unigol a chymorth ariannol a ddarperir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid .....	35
3.3 Ysgolion.....	44
3.4 Cefnogi menter y tu allan i fyd addysg .....	48
3.5 Cefnogi'r ecosystem entrepreneuriaid.....	49
<b>4. Casgliadau ac argymhellion</b> .....	<b>54</b>
4.1 Cynnydd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid yn erbyn y 4 elfen: Ymgysylltu ....	54
4.2 Cynnydd y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid yn erbyn y 4 elfen: Grymuso ....	55
4.3 Cynnydd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid yn erbyn y 4 elfen: Ymbaratoi .....	56
4.4 Cynnydd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid yn erbyn y 4 elfen: Galluogi .....	57
4.5 Meysydd eraill i'w hystyried: Dyfarniadau Grant i Addysg Bellach ac Addysg Uwch	57
4.6 Meysydd eraill i'w hystyried: yr ecosystem entrepreneuriaid (galluogi'r ecosystem)	59
4.7 Meysydd eraill i'w hystyried: Technoleg Ddigidol (technoleg ddigidol yn galluogi darpariaeth yn y dyfodol).....	60

## Geirfa

AB/AU	Coleg Addysg Bellach / AU - Addysg Uwch Prifysgol
SAU	Sefydliadau Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
MMCCCh	Mentegarwch a Meithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr
Y 4 elfen	Pedair thema gyflawni'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid – Ymgysylltu, Grymuso, Ymbaratoi a Galluogi
Y Gyfnewidfa	Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru
Y Rhaglen	Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid

Nod rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid 2016-22 yw:

- Codi dyheadau a gwella'r ddealltwriaeth o entrepreneuriaeth;
- Datblygu sgiliau ac agweddau entrepreneuriaid drwy brofiadau ymarferol;
- Nodi a meithrin entrepreneuriaid y dyfodol, gan ddatblygu eu gwybodaeth a chreu rhwydwaith o bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes;
- Ymgysylltu â busnesau, yn enwedig entrepreneuriaid Cymru i rannu eu harbenigedd; a
- Grymuso'r Sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru i hyrwyddo'r agenda entrepreneuriaeth a chefnogi menter ymhlith myfyrwyr.

Mae gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuentid yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru ac yn annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid a helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn dechrau busnes i roi eu syniad ar waith. Yn rhan o Busnes Cymru, nod y gwasanaeth yw annog pobl ifanc i godi eu dyheadau a gwireddu eu potensial i greu cyfleoedd cyffrous iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Mae gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuentid yn darparu rhaglenni gweithgarwch penodol gan gynnwys Cystadleuaeth y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd, gwefan Syniadau Mawr, Modelau Rôl, Dathlu Syniadau Mawr Cymru, Her Bwtcamp i Fusnes, Pencampwyr Entrepreneuriaeth mewn AB/AU a'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth.

Ymgyrch newid cymdeithasol graddol yw Syniadau Mawr Cymru a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth a hybu dealltwriaeth o ddechrau busnes. Cyflawnir yr ymgyrch drwy hysbysebu ar-lein, datganiadau misol i'r cyfryngau yn cynnwys astudiaethau achos, cylchlythyr i entrepreneuriaid ifanc a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid hefyd yn galluogi'r sector Addysg Bellach ac Uwch i hyrwyddo'r agenda entrepreneuriaeth a threfnu gweithgarwch gyda phartneriaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i gefnogi Pencampwyr Entrepreneuriaeth ym mhob coleg a phrifysgol ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth, darparu profiad ymarferol i fusnesau, a meithrin a chefnogi entrepreneuriaid ifanc i ddechrau busnes. Mae'r rhwydwaith Pencampwyr yn chwarae rhan allweddol wrth weithio gyda phartneriaid ac mae busnesau wedi'u hariannu ar hyn o bryd tan fis Medi 2022.

## Nodau ac amcanion yr Adolygiad

Pwrpas yr adolygiad hwn yw dangos tystiolaeth o effaith y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid 2016-2022 bresennol, asesu ei chyfraniad at ddatblygiad Entrepreneuriaeth Ieuentid yng Nghymru, ac asesu ei rôl yn yr ecosystem entrepreneuriaid yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi penderfyniadau polisi ar flaenoriaethau allweddol wrth gynllunio gweithgaredd ar gyfer entrepreneuriaid ifanc yn y dyfodol. Nodau'r adolygiad oedd:

- Adolygu Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid 2016-2021 er mwyn: darparu prif asesiad o'r canlyniadau a'r effaith o gymharu â'r amcanion; nodi meysydd o gryfder a chyfleoedd i wella; asesu gwerth am arian o ran cyflawni canlyniadau.

- Pennu'r rôl y mae'r Rhaglen wedi'i chwarae yn natblygiad Entrepreneuriaeth Ieuenctid yng Nghymru a'i chyfraniad at flaenoriaethau polisi.
- Ystyried y cyfleoedd economaidd cyfnewidiol a'r datblygiadau digidol i gefnogi pobl ifanc o dan 25 oed, adolygu rôl y Rhaglen yn y dyfodol yn yr ecosystem entrepreneuriaeth ehangach ochr yn ochr â mentrau'r sector preifat, y trydydd sector a mentrau eraill y Llywodraeth.
- Ailasesu'r sail resymegol dros ymyrryd a darparu argymhellion i lywio dyluniad y rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid i fodloni blaenoriaethau economaidd a pholisi wrth gyflawni Rhaglen Lywodraethu newydd 2021-2026.

## Dull

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2022 ac roedd yn cynnwys:

- Cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gytuno ar gwmpas yr adolygiad
- Adolygiad desg o ddogfennau ac allbynnau polisi a rhaglen
- Cyfweiliadau gyda 12 o gynrychiolwyr AB/AU (6AB a 6AU) ac 20 o randdeiliaid
- Dadansoddi canfyddiadau'r adolygiad desg a'r cyfweiliadau a pharatoi adroddiad

## Canfyddiadau allweddol yr adolygiad

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad yn rhai i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth gynllunio rhaglenni'r dyfodol i gefnogi Entrepreneuriaeth Ieuenctid.

## Ymgysylltu

Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi rhagori ar ei thargedau ymgysylltu mewn perthynas â chyrraedd lleoliadau addysg i hyrwyddo gweithgareddau menter a gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru. Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol, wedi cefnogi'r gwaith o farchnata a hyrwyddo'r Rhaglen yn effeithiol. Mae ymgyrch Syniadau Mawr Cymru wedi chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid hefyd wedi cefnogi ymgysylltiad â rhai pobl ifanc y tu allan i fyd addysg drwy weithio gyda sefydliadau partner er bod cyrhaeddiad a chwmpas yr ymgysylltu hwn yn llai cyson ar lefel AB ac AU. Gall y 'Warrant i Bobl Ifanc' fod yn sbardun i annog rhagor o ymgysylltu a chefnogaeth i bobl ifanc y tu allan i fyd addysg, gan roi mwy o bwyslais ar y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid a chanolbwyntio ar gefnogi entrepreneuriaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a rhoi cyfle cyfartal wrth wraidd gweithgareddau menter y dyfodol.

**Argymhelliad 1:** Byddai cynllun ymgysylltu yn cynyddu gwerth Ymgyrch Syniadau Mawr Cymru i'r eithaf ac yn ei chryfhau fel y prif wasanaeth sy'n cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru. Dylai Contractwyr yr ymgyrch yn y dyfodol flaenoriaethu a chryfhau gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru er mwyn gweithio mewn dull mwy cydweithredol, yn enwedig i gefnogi entrepreneuriaid ifanc y tu allan i fyd addysg.

Mae Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru hefyd wedi chwarae rôl ymgysylltu bwysig a dylanwadol ac wedi cael eu croesawu'n frwd gan bobl ifanc ac ymarferwyr. Addasodd y

rhwydwaith o fodolau rôl yn gyflym i ddarpariaeth ddigidol yn ystod y pandemig, gan gynnig sianel newydd ar gyfer cyflawni Syniadau Mawr Cymru. Bydd adeiladu ar gryfderau'r rhwydwaith o fodolau rôl yn darparu cysondeb o ran ymweliadau entrepreneuriaid a gweithdai o fewn y byd addysg a'r tu allan iddo i godi dyheadau mewn perthynas ag entrepreneuriaeth yn genedlaethol.

**Argymhelliad 2:** Dylai Modelau Rôl barhau i fod yn elfen annatod o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu potensial i ymgysylltu â chynulleidfaedd ehangach ar draws darpariaeth y rhaglen yn y dyfodol.

Serch hynny, mae sawl maes lle y gellid gwella effaith y Modelau Rôl. Dylid ymdrechu i fynd i'r afael â phrinder mewn rhai sectorau megis TGCh ac adeiladu yn ogystal â datblygu rhwydwaith o Fodelau Rôl mewn menter gymdeithasol.

**Argymhelliad 3:** Mae cyfleoedd i unrhyw un o gontractwyr Syniadau Mawr Cymru yn y dyfodol wella cyfathrebu â'r rhwydwaith modelau rôl. Gallai hyn gynnwys nodi sectorau lle ceir prinder, hyfforddiant a sefydlu, diweddariadau rheolaidd ar y lleoliadau addysg y maent yn gweithredu ynddynt, cyfeirio pobl ifanc at y cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad â Syniadau Mawr Cymru.

## Grymuso

Mae'r model ACRO (Agwedd, Creadigrwydd, Perthnasau a Threfniadaeth) wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer grymuso pobl ifanc, yn enwedig y rhai o oedran addysg orfodol, gyda'r sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i fod yn entrepreneuriaid. Mae'r Criw Mentrus wedi ymgorffori'r model ACRO yn effeithiol o fewn rhaglen y gystadleuaeth; ond gellir gwella lefel a chyrhaeddiad cyfranogiad ysgolion.

**Argymhelliad 4:** Mae cystadleuaeth y Criw Mentrus wedi darparu llwyfan da i arddangos cyflawniadau ysgolion yn y maes menter; fodd bynnag, dylai darpariaeth y dyfodol ystyried ai cystadleuaeth yw'r dull cywir o gofio'r angen i gyrraedd mwy o ysgolion a sicrhau bod cymorth i athrawon yn cyd-fynd ag anghenion y cwricwlwm newydd.

Mae'r cwricwlwm ysgol newydd a chyflwyno'r fframwaith Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn darparu cyfleoedd i waith y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid gael ei ddyrchafu ymhellach mewn ysgolion a'i gefnogi ymhellach drwy waith Gyrfa Cymru. Mae'r ffocws ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau entrepreneuriaid yn sbardun allweddol i addysgwyr ac mae cyfleoedd amlwg i hyrwyddo prif ffrydio entrepreneuriaeth o fewn y cwricwlwm newydd. Dylai hyn hefyd gael ei roi yng nghydstun mwy o ffocws ar gynaliadwyedd a chysylltedd teithiau menter dysgwyr drwy'r ysgol gynradd i'r uwchradd ac ymlaen i addysg bellach ac uwch.

**Argymhelliad 5:** Mae angen cefnogi athrawon gydag ystod o adnoddau i'w helpu i roi dealltwriaeth i'w myfyrwyr o fusnes, datblygu sgiliau entrepreneuriaeth a chysylltu'r sgiliau hyn â'u hopsiynau gyrfa. Gall y rhain hefyd gefnogi AB ac AU lle mae'r cyfrifoldeb am Rymuso yn nwylo'r sefydliad drwy'r system addysg.

**Argymhelliad 6:** Wrth ddylunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl Gyrfa Cymru a'r ffordd orau o gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei ymgorffori drwy'r broses o ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn y dyfodol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu llwybr entrepreneuriaeth cysylltiedig sy'n cefnogi pobl ifanc ar bob cam o'u datblygiad.

## Ymbaratoi

Mae ymbaratoi pobl ifanc i gymryd camau a gwneud penderfyniadau gwybodus am entrepreneuriaeth a dechrau busnes yng Nghymru yn faes blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid. Noda'r adroddiad y bu cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi ar sail un-i-un i ddatblygu eu syniadau busnes. Yn ogystal, mae'r canfyddiadau'n dangos bod pobl ifanc sy'n defnyddio cymorth Ymbaratoi yn cael manteision sy'n ganlyniadau meddalach fel mwy o wybodaeth, hyder, a dyheadau nad ydynt yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd.

Ar gyfartaledd, fodd bynnag, mae pobl ifanc yn cymryd llawer mwy o amser i symud ymlaen o syniad busnes i ddechrau busnes o gymharu ag entrepreneuriaid hŷn a dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer cymorth yn y dyfodol o dan y rhaglen.

**Argymhelliad 8:** Mae angen darparu cymorth ychwanegol drwy Syniadau Mawr Cymru i fodloni ymrwymadau polisi a wnaed yn y Warrant i Bobl Ifanc, sydd hefyd yn ystyried faint o amser sydd ei angen ar bobl ifanc i symud ymlaen i ddechrau busnes. Dylid felly ystyried lefel uwch o fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau a digwyddiadau cynghori a chofleidiol er mwyn sicrhau hyn.

**Argymhelliad 9:** Mae gwaith monitro a gwerthuso'r rhaglen yn cyfuno mesurau cenedlaethol a mesurau'r rhaglen sy'n dangos cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylid ystyried cofnodi set ehangach o fetrigau er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddechrau busnes, gan gynnwys canlyniadau/dangosyddion meddalach i adlewyrchu'n well ehangder y cymorth a ddarperir.

## Galluogi

Rhagorwyd ar y targedau Galluogi ar gyfer sefydliadau AB ac AU ar draws y rhaglen ar gyfer nifer y staff sydd wedi bod yn bencampwyr entrepreneuriaeth. Mae'r mudiad Creu Sbarc yn cael rhywfaint o effaith ar gysylltu partneriaid yn yr ecosystem, yn ogystal â rhannu ymchwil ymhlith rhwydweithiau rhanddeiliaid sy'n cefnogi pobl ifanc entrepreneuraidd. Mae'r rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth ar draws y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch wedi bod yn rhwydwaith galluogi allweddol i wasanaethau, gan gynnwys Syniadau Mawr Cymru, i bobl ifanc yn eu sefydliadau ac yn bwynt cyfeirio.

Nod prosiect Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru oedd cefnogi'r ecosystem hon ymhellach. Serch hynny, mae wedi bod yn heriol i'r Gyfnewidfa weithredu fel elfen annibynnol o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid tra y caiff ei darparu o dan faner Syniadau Mawr Cymru. At hynny, nid yw'n ymddangos bod gan y Gyfnewidfa rôl na chanlyniadau wedi'u diffinio'n glir ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn anodd i randdeiliaid ymgysylltu'n llawn â hi ac felly dylid ystyried dulliau cyflawni eraill.

**Argymhelliad 10:** Byddai canlyniadau gwaith galluogi'r agenda Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn cael eu cyflawni'n well pe baent yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu mwy o oruchwyliaeth a photensial i gynyddu'r gwaith trawsadrannol sydd ei angen i

gyflawni ymrwymiadau polisi; yn ogystal â chael ei gefnogi'n weithredol gan gontractwr Syniadau Mawr Cymru y dyfodol.

### Dyfarniadau Grant i sefydliadau AB ac AU (Galluogi dyfarnu grantiau)

Mae sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch wedi gwneud defnydd da o'r cyllid grant dros y 3 blynedd diwethaf fel y dangosir yn eu Hadroddiadau Effaith Blynyddol. Cafodd y ddau sector eu heffeithio'n fawr gan y pandemig, gydag Addysg Bellach yn canolbwyntio ei chyllid ar hybu gweithgareddau Ymgysylltu a Grymuso i gynyddu dyheadau ar gyfer entrepreneuriaeth, ehangu cyfranogiad a rhoi darlun ymarferol o entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfa. Defnyddiodd sefydliadau Addysg Uwch eu cyllid i gydweithio a chyflymu entrepreneuriaeth, gan gynyddu nifer y busnesau a gafodd gymorth i sefydlu. Gellir gweld rhagor o arferion da yn y rhwydweithiau menter a ddatblygwyd ar lefel leol a rhanbarthol a gweithgareddau drwy rwydwaith y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth gyda SAU.

Ymddengys fod cynnydd tuag at ymgorffori menter wedi'i gyflawni, i raddau amrywiol ar draws yr holl sefydliadau. Heb y cyllid grant, mae'n debygol y byddai'r ffocws ar weithgareddau menter a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi busnesau newydd yn y rhan fwyaf o sefydliadau yn lleihau – mae hyn yn arbennig o wir ar draws colegau AB.

Pe bai cyllid ychwanegol ar gael, byddai hyn yn helpu i adeiladu ar y llwyddiannau a welwyd hyd yma yn y ddau sector, gan sicrhau mwy o gynaliadwyedd a chysondeb o ran cyfleoedd ar draws y sectorau AB ac AU gan fynd i'r afael ag anghenion penodol a chanlyniadau a ddymunir yn y ddau sector. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn gyfrifol am oruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector ôl-16 yng Nghymru.

**Argymhelliad 11:** Dylai unrhyw gyllid yn y dyfodol adlewyrchu gwahanol ganlyniadau entrepreneuriaeth AB ac AU, a dylai cymorth i AB integreiddio â chymorth presennol ar gyfer dilyniant pobl ifanc drwy bwyntiau pontio a dylai cymorth mewn AU ganolbwyntio ar ymbaratoi'r rhai sydd agosaf at ddechrau busnes ac ar ôl iddynt raddio.

**Argymhelliad 12:** Dylai cymorth yn y dyfodol i sefydliadau AB ac AU atgyfnerthu'r angen i sefydliadau arwain yr agenda ac ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu harlwy cyffredinol i fyfyrwyr a graddedigion.

### Ecosystem Entrepreneuriaidd (Galluogi'r ecosystem)

Gallai cymorth ar gyfer menter gymdeithasol yn y dyfodol fod yn ffactor allweddol i adlewyrchu ymhellach gymhellion pobl ifanc i ddechrau busnes a bydd y cyd-destun sy'n datblygu o amgylch Busnes Gymdeithasol Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer ymyriadau sy'n benodol ar gyfer Cymru, er enghraifft, yn gysylltiedig â 'chryfhau ecosystemau entrepreneuriaidd lleol' ochr yn ochr â chefnogi hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel a buddsoddiad mewn cyfalaf dynol a chynyddu cyfleoedd bywyd. Gall y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid hefyd chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi Cenhadaeth Llywodraeth Cymru i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, sy'n anelu at gefnogi diwylliant entrepreneuriaidd.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o raglenni'r dyfodol sy'n cyd-fynd â gweledigaeth "Trawsnewid Cymru drwy Fenter Gymdeithasol" i sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori ar draws pob maes cyflawni.



## Technoleg Ddigidol (technoleg ddigidol sy'n galluogi cyflawni'r rhaglen yn y dyfodol)

Mae'r pandemig wedi chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo darpariaeth ddigidol a fydd yn darparu llwyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn amlinellu enghreifftiau lle mae technoleg ddigidol wedi'i defnyddio'n effeithiol ac wedi cynhyrchu enillion effeithlonrwydd yn y broses. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at gynulleidfaedd ehangach i hyrwyddo gwasanaethau yn ogystal â darparu rhai meysydd cymorth penodol. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod, fodd bynnag, rôl bwysig ymgysylltu wyneb yn wyneb o ran meithrin hyder pobl ifanc wrth baratoi ar gyfer eu gyrfaedd a dechrau busnes yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14:** Dylai gwasanaethau Entrepreneuriaeth leuenticid y dyfodol ystyried dull cyflawni hybrid, gan ddefnyddio darpariaeth ddigidol lle y gall wella darpariaeth wyneb yn wyneb, ysgogi arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, a chynyddu cyrhaeddiad cymorth a chyfranogiad arbenigol ledled Cymru.

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymchwil Arad i gynnal adolygiad o ddarpariaeth ac effaith y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yn ystod 2016-2022. Nod y Rhaglen yw “datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuriaid ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol”.

## 1.1 Cefndir y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid

Wrth ddatblygu'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor i ddatblygu capasiti entrepreneuriaid pobl ifanc ledled Cymru. Mae'r Rhaglen bresennol wedi bod ar waith ers 6 blynedd ers iddi gael ei sefydlu yn 2016, gan fuddsoddi cyfanswm o £14 miliwn a bydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2023. Caiff y Rhaglen ei chyflawni gan Adran yr Economi a'i nod yw “datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuriaid ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol”.

Mae dull cyflawni'r rhaglen wedi canolbwyntio ar bedair thema gyflawni allweddol a sefydlwyd drwy'r [Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid](#) ac mae'r rhain yn darparu strwythur a ffocws cenedlaethol ar gyfer addysg entrepreneuriaeth yng Nghymru, gyda'r nod o greu momentwm a chefnogi'r ecosystem entrepreneuriaid ehangach.

**Ymgysylltu:** Hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc. Codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth a'r dyhead i fod yn entrepreneuriaid.

**Grymuso:** Rhoi cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc. Datblygu sgiliau ac agweddau drwy brofiadau ymarferol.

**Ymbaratoi:** Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau. Cefnogi'r daith tuag at ddechrau busnes i'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

**Galluogi:** Llywio Entrepreneuriaeth Ieuencid drwy gysylltu'r ecosystem a meithrin gallu ymhlith partneriaid a grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth.

Wrth gyflawni uchelgeisiau'r themâu hyn, mae'r rôl y mae'r ecosystem ehangach yn ei chwarae wrth gefnogi diwylliant entrepreneuriaid hefyd yn cael ei chydabod gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys addysg, diwygio'r cwricwlwm, gyrfaoedd a chefnogaeth ehangach gan bartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae Adran yr Economi wedi sicrhau bod ymyriadau uniongyrchol yn canolbwyntio'n benodol ar ysbrydoli pobl ifanc i gael yr hyder i chwilio am gyfleoedd drostynt eu hunain; hyrwyddo'r sgiliau entrepreneuriaid sydd eu hangen a rhoi'r sgiliau cywir i bobl ifanc ddechrau busnes a chynyddu nifer y cwmnïau bach sy'n cael eu sefydlu. Ystyriwyd hefyd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn creu ecosystem entrepreneuriaid fwy cydlynol a chefnogi dealltwriaeth o entrepreneuriaeth.

Mae'r rhaglen wedi cyflawni ei hymrwymiaidau ar gyfer 2016-2022 drwy ddau ddull:

- **Busnes Cymru - Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuentid**, (Lot 1) drwy broses gaffael ganolog gan Lywodraeth Cymru. Bydd Syniadau Mawr Cymru yn cefnogi ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuentid i annog a chodi proffil entrepreneuriaeth ieuentid. Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal o 2016 tan fis Ebrill 2023; a
- **Dyfarnu cyllid grant i Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch**; fe'i dyfernir ar sail cais am dair blynedd gan gynnwys eu strategaeth i ymgorffori entrepreneuriaeth a chyflawniad ar draws blynyddoedd academiaidd ac mae'n ddibynnol ar gyhoeddi adroddiad effaith blynyddol. Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal o 2019 tan fis Medi 2023.

Roedd y gweithgareddau a ddarparwyd ar draws y rhaglen yn canolbwyntio ar:

- Weithdai wedi'u harwain gan entrepreneuriaid i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc
- Gwybodaeth ddigidol i ddarparu cymorth, estyn allan a dathlu llwyddiant
- Cymorth i'r rhai sy'n dechrau busnes drwy ddigwyddiadau, bwtcamps, rhwydweithiau a chymorth ar ffurf cyngor un-i-un i entrepreneuriaid ifanc
- Ymgysylltu a dysgu gyda phartneriaid, cystadlaethau, rhannu gwybodaeth ac adnoddau (Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth)
- Rhwydwaith Pencampwyr menter mewn AB/AU i ymgorffori menter a chyflymu'r broses i fyfyrwyr sy'n dechrau busnesau
- Darparu cymorth ehangach i bobl ifanc drwy Busnes Cymru / Hybiau Menter

## 1.2 Nodau'r adolygiad

Nodau'r adolygiad oedd:

- Pennu'r rôl y mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid wedi'i chwarae yn natblygiad Entrepreneuriaeth Ieuentid yng Nghymru a'i chyfraniad at flaenoriaethau polisi.
- Darparu prif asesiad o'r canlyniadau a'r effaith yn erbyn amcanion y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid.
- Nodi meysydd o gryfder a chyfleoedd i wella.
- Asesu gwerth am arian wrth gyflawni canlyniadau.
- Adolygu rôl y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid yn y dyfodol yn yr ecosystem entrepreneuriaeth ehangach ochr yn ochr â mentrau preifat, mentrau'r trydydd sector a mentrau eraill y Llywodraeth.
- Ystyried y cyfleoedd economaidd cyfnewidiol a'r datblygiadau digidol i gefnogi pobl ifanc o dan 25 oed.
- Ailasesu'r sail resymegol dros ymyrryd a darparu argymhellion i lywio dyluniad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid i fodloni blaenoriaethau economaidd a pholisi wrth gyflawni Rhaglen Lywodraethu newydd 2021-2026.

Cafodd amcanion yr adolygiad eu grwpio'n dri maes:

### 1. Effaith a Chyflawni

- Adolygu'r pedair thema gyflawni (Ymgysylltu, Grymuso, Ymbaratoi a Galluogi) a chyflawniadau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid. Ystyried perthnasedd parhaus, cyfleoedd ar gyfer symleiddio taith y cleient a blaenoriaethau datblygu economaidd.
- Edrych ar y cydlyniant wrth gyflawni'r Rhaglen rhwng darparwyr contract y Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuencid; y grant a ddyfarnwyd i sefydliadau AB ac AU; fel rhan o'r ddarpariaeth Dechrau Busnes ehangach i gyflawni canlyniadau'r rhaglen.
- Adolygu pa mor effeithiol fu'r Rhaglen o ran cyflawni cynhwysiant a chydabod croestoriad gan nodi unrhyw lwyddiant o ran ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chynyddu cyfranogiad gan grwpiau â nodweddion gwarchoddedig fel y nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb gan gynnwys oedran, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd, rhyw /rhywedd a hil.

### 2. Sail resymegol dros ddarparu cymorth/Rôl y Llywodraeth

- A oes sail resymegol barhaus i ariannu'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch a darparu holl wasanaethau Syniadau Mawr Cymru? A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a sut y mae pob elfen yn cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer Entrepreneuriaeth Ieuencid ac Economi Cymru
- Pa rôl ddylai Llywodraeth Cymru (Adran yr Economi) ei chwarae wrth gefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a galluoedd menter?

### 3. Modelau Cyflawni yn y Dyfodol

- Sut y gallwn wella ymgysylltiad ar gam cynnar (codi ymwybyddiaeth) mewn ysgolion, yn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'r rôl y mae Gyrfa Cymru yn ei chwarae wrth gefnogi ymgysylltu â chyflogwyr?
- Sut y gallwn wella'r ymgysylltiad â phobl ifanc y tu allan i fyd addysg ar draws y rhaglen Ieuencid a chynnig integredig Busnes Cymru? (Paratoi ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc).
- Nodi arferion gorau o ran cymorth entrepreneuriaeth wyneb yn wyneb a digidol i bobl ifanc, gan nodi tystiolaeth o unrhyw dueddiadau neu batrymau ehangach yn y defnydd o gymorth gan bobl ifanc i helpu i lunio model(au) ar gyfer cyflawni'r rhaglen yn y dyfodol.

## 1.3 Ein dull gweithredu

Roedd ein dull o gynnal yr adolygiad hwn yn cynnwys cyfuniad o ymchwil desg cynhwysfawr a chyfweliadau ag ystod o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â darparu amrywiol weithgareddau cymorth a gefnogir ac a ddarperir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid a derbynyddion y cymorth hwnnw.

Roedd yr ymchwil desg yn cynnwys adolygiad o'r dogfennau canlynol:

- **Dogfennau ar lefel strategol / polisi**
  - [Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuentid](#)
  - [Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Pecyn cymorth Fframwaith Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith.](#)
  - [Y Warrant i Bobl Ifanc](#)
  - [Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru](#)
  
- **Gwaith ymchwil cyhoeddus ar Entrepreneuriaeth Ieuentid**
  - [Gwaith Ymchwil i Ddyheadau Entrepreneuriaid Ifanc 2017;](#)
  - ICF [Gwerthusiad canol tymor o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru Rhag 2018 - Yn cynnwys Syniadau Mawr Cymru](#)
  - [Mapio ac adolygu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau a chyflogwyr ar draws ysgolion yng Nghymru](#)
  - Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang 2019 – data ar grŵp 16-24 [Arolwg Rhyngweithio Cymuned Fusnes Addysg Uwch 2019-2020](#) (Saesneg yn unig)
  
- **Gwaith ymchwil heb ei gyhoeddi ar Entrepreneuriaeth Ieuentid**
  - Adolygiad Canol Tymor o Gyllid Grant Entrepreneuriaeth Ieuentid i sefydliadau AB ac AU (Rhaglen 2015-2018) – Redbox Research Gorffennaf 2018
  - Llais Ieuentid Syniadau Mawr Cymru 2020 ac Asiantau Ieuentid 2021;
  - Gwerthusiad o'r Gystadleuaeth i Ysgolion Cynradd - Criw Mentrus (Arad 2021)
  - Adroddiad Effaith ar waith y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth 2017-2021 (Carp 2021)
  - Adroddiad ar Wefan Busnes Cymru / Syniadau Mawr Cymru – Lens Rhywedd
  - Arolwg poblogaeth Busnes Cymru Tachwedd 2021 – 18+, Beaufort Research
  - Arolwg Omnibws Plant 2019 – pobl ifanc 11–18 oed (Dyheadau gyrfa, cyfranogiad mewn mentor)
  - Arolwg poblogaeth Busnes Cymru Tachwedd 2021 – 18+, Beaufort Research
  - Enterprise Catalyst – blwyddyn academaidd 2020-2021

Roedd yr ymchwil desg hefyd yn cynnwys adolygiad o'r data monitro sydd ar gael

- Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuentid - Allbwn a pherfformiad yn erbyn 4 Efen y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid
- Dyfarniadau Grant AB/AU i sefydliadau gan gynnwys meini prawf dyfarnu, sampl o gynlluniau strategol, adroddiadau cynnydd misol ac adroddiadau effaith blynyddol i asesu cynnydd yn erbyn cynlluniau a thargedau sefydliadol
- Dadansoddiad meintiol y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid o holiaduron digwyddiadau ar gyfer pob gweithgaredd.

I gyd-fynd â'r ymchwil desg cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolwyr Syniadau Mawr Cymru

- Cynrychiolwyr Busnes Cymru
- Pencampwyr Menter AB ac AU
- Partneriaid cyflawni
  - 2BEnterprising Cyf
  - Y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd
  - Ymddiriedolaeth y Tywysog
  - Gyrfa Cymru
  - UnLtd
- Cyrff cynrychioliadol eraill:
  - CCAUC
  - Prifysgolion Cymru

Cafodd dogfennau strategaeth, polisi ac ymchwil eu codio a'u hadolygu yn unol â phrif themâu'r gwerthusiad a / neu fodolau cyflawni'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid y cyfeiriwyd atynt. Roedd canfyddiadau'r adolygiad o ddogfennau yn llywio'r amserlenni trafod a ddefnyddiwyd i arwain y cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn ogystal â'r canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Roedd natur a lefel yr ymgysylltu â'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn amrywio ar draws y rhanddeiliaid a gyfwelwyd. Yn hynny o beth, cafodd y themâu a drafodwyd â rhanddeiliaid eu teilwra yn seiliedig ar rolau, gwybodaeth a phrofiad yr unigolion a gyfwelwyd. Fel gyda'r adolygiad polisi, cafodd ymatebion i gyfweiliadau rhanddeiliaid eu codio a'u dadansoddi o fewn themâu adolygu a nodwyd ac y cytunwyd arnynt.

Roedd ehangder y meysydd gwasanaeth a ddarparwyd, a'r cymorth a gynhwyswyd yn y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn gofyn am adolygiad o set yr un mor eang o ddata a chyfweiliadau â rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau gwahanol. Nid oedd yr amser a'r adnoddau a oedd ar gael yn caniatáu cynnal adolygiad manwl ar draws holl feysydd cyflawni'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid bob tro, sy'n golygu bod rhai cyfyngiadau ar faint y dystiolaeth y mae'r canfyddiadau'n seiliedig arni.

## 2. Adolygiad o Bolisiau

Mae'r adran hon yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid a datblygiadau eraill.

Gellir ystyried y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yng nghyd-destun dogfen Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a oedd yn ymrwmo i ddatblygu ac ymgorffori diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru, hybu twf economaidd a darparu swyddi i bobl ifanc. Amlygodd Rhaglen Lywodraethu 2016-2020 hefyd yr angen i gefnogi'r rhai sy'n gadael yr ysgol, y coleg a'r brifysgol i ddechrau busnes a helpu i ddatblygu sector preifat mwy mentrus.

Gellir ystyried dyluniad a chyflwyniad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yng nghyd-destun ystod o bolisiau blaenorol a chyfredol Llywodraeth Cymru yn ogystal â strategaethau ar gyfer cynnydd cymdeithasol ac economaidd Cymru yn y dyfodol. Mae'r ymchwil yn dangos nad yw'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yn gweithredu fel rhaglen ar ei phen ei hun, ond yng nghyd-destun marchnad lafur ac entrepreneuriaeth gymhleth Cymru. Dywedodd rhanddeiliaid fod y rhaglen wedi dod yn fwy hyblyg ac ymatebol dros y blynyddoedd, gan weithredu ar lefel leol a rhanbarthol yn ogystal â chysylltu â pholisiau a sbardunau economaidd a chymdeithasol cenedlaethol allweddol.

I rai rhanddeiliaid, mae'r hyblygrwydd hwn wedi darparu dull cyd-gysylltiedig o gefnogi entrepreneuriaeth ieuencid yng Nghymru, gyda'r wlad yn mwynhau manteision yn sgil ei maint o gymharu â gwledydd eraill y DU ac yn canolbwyntio ar ddull sy'n fwy seiliedig ar bartneriaeth. Roedd rhanddeiliaid felly o'r farn bod y rhaglen wedi bod yn dilyn yr egwyddorion a amlinellwyd gan 'Creu Sbarc'<sup>1</sup>, sef 'ecosystem entrepreneuriaid fwy gweladwy, syml a chysylltiedig yng Nghymru' drwy ei hystod eang o weithgareddau, cyllid a chyfleoedd i gydweithio.

Atgyfnerthir y canfyddiadau hyn ymhellach mewn papur Addysg Entrepreneuriaeth<sup>2</sup> diweddar (Conway 2022), sy'n datgan bod Cymru'n unigryw o ran cysylltu gwaith ar bolisi addysg ac arloesi â pholisi effeithiolrwydd ysgolion a gyrfaedd. Mae'r papur yn mynd ymlaen i nodi mai agwedd allweddol ar y cwricwlwm newydd arfaethedig oedd ymgysylltu ar bob lefel o addysg, yn ogystal â chysylltu'r biblinell fenter â'r hyn a gynigir gan AU ac AB yng Nghymru. Mae hyn eto'n dangos y ffocws ar ddull cyd-gysylltiedig sydd wedi bod yn nodweddiadol o ddatblygiad y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yng Nghymru.

Yn wreiddiol, ystyriwyd y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yng nghyd-destun polisiau economaidd allweddol megis 'Ffyniant i Bawb' 2017, a oedd yn mynd ati i '*annog [a] hwyluso diwylliant entrepreneuriaid yng Nghymru, a phennu targedau ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n dechrau cwmnïau ar ôl gadael yr ysgol, coleg a phrifysgol*'.<sup>3</sup> Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid hefyd wedi creu cysylltiadau â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) o'r cychwyn cyntaf o ran cefnogi Cymru 'lewyrchus' a 'chydnerth' drwy feithrin doniau Cymreig drwy hybu a chefnogi entrepreneuriaeth ar draws y sector addysg.

---

<sup>1</sup> [Creu Sbarc](#)

<sup>2</sup> [APPG for Entrepreneurship: Entrepreneurship Education — The Entrepreneurs Network \(tenentrepreneurs.org\)](#)

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (2017) *Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi* tud. 34



Mae gan y rhaglen gysylltiadau strategol â rhai o 'nodau llesiant' allweddol y Ddeddf hon, gan gynnwys 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru o gymunedau cydlynus'. Mae'r nodau hyn wedi'u bwriadu i gefnogi poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, a thrwy hynny greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol). Drwy ei hymrwymiad i gyfleoedd dwyieithog ar gyfer entrepreneuriaeth mae cysylltiad rhwng y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a chefnogi'r nod Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd.

Ers lansio'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amlinellu ei rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio'r cwricwlwm. Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn thema drawsbynciol ar draws y cwricwlwm newydd a gellir integreiddio'r sgiliau a gefnogir gan addysg fenter â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) newydd. Gellir ystyried y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yng nghydestun pedwar diben y Cwricwlwm, sef sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn 'gyfranwyr mentrus, creadigol' a chysylltu'r ffocws cynyddol gyda phartneriaid y Rhaglen ar bwysigrwydd menter gymdeithasol (gweler hefyd adran 3.8) a datblygiad cynaliadwy â'r nod o ddatblygu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus.'

*'Mae addysg fenter yn dibynnu ar wytnwch, hyder a chyfathrebu – dyma sgiliau'r 21<sup>ain</sup> ganrif.'*  
Rhanddeiliad

Yn 2021 lansiodd Llywodraeth Cymru y Warrant i Bobl Ifanc fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu (2021-26), er mwyn sicrhau nad oes unrhyw genhedlaeth ar ei cholled oherwydd effeithiau'r pandemig. Mae hyn yn cynnig cyfle i bobl ifanc ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyngor i symud ymlaen i hunangyflogaeth a dechrau busnes. Unwaith eto, mae hyn yn dangos rôl annatod bosibl y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid i gefnogi nodau strategol ar gyfer pobl ifanc er budd cymdeithasol ac economaidd Cymru. Roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylai'r elfen hon o'r Rhaglen gael mwy o ffocws yn y dyfodol a thrafodir hyn ymhellach yn adrannau 2.6 a 2.7.

*'Mae'r Warrant i Bobl Ifanc yn sbardun allweddol nawr ac mae'r rhai y tu allan i addysg bellach yn flaenoriaeth benodol. Mae'n ddull mwy pwrpasol ac mae'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid cymunedol i hyrwyddo entrepreneuriaeth i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi.'* Rhanddeiliad

Mae gweithgareddau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag addysg uwch, hefyd yn cyd-fynd â chenhadaeth Llywodraeth Cymru i ailadeiladu'r economi ar ôl COVID<sup>4</sup>. Mae ei amcanion yn cynnwys cadw graddedigion a thalent yng Nghymru drwy feithrin cysylltiadau cryf rhwng prifysgolion a chyflogwyr a sicrhau bod cwmnïau'n ymsefydlu yng Nghymru ac yn darparu cyfleoedd yn y dyfodol. Dywedodd un rhanddeiliad, *'ystyrir bod entrepreneuriaeth yn rhan o 'ailgodi'n gryfach' ac ymateb i anghenion economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ar ôl Covid.'* Felly mae gan y rhaglen y potensial i fod yn rhan annatod o ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru yn y dyfodol.

Dangosodd adolygiad llenyddiaeth o Weithgaredd Mentergarwch a Meithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr (2021) mai amcanion allweddol addysg entrepreneuriaeth oedd datblygu meddylfryd entrepreneuraidd, gwella ymgysylltiad academiaidd, cynyddu cyflogadwyedd, ysgogi entrepreneuriaeth o safon ac ehangu mynediad. Nododd hefyd bwysigrwydd

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2021) [Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi](#)



entrepreneuriaeth fel elfen o ddarpariaeth gyrfaoedd o ansawdd uchel a thegwch o ran mynediad at gymorth. Mae safbwyntiau rhanddeiliaid a chanlyniadau gwerthusiadau o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn dangos bod y rhaglen yn cefnogi llawer o'r amcanion hyn drwy weithgareddau cyfredol ac y dylai unrhyw raglen yn y dyfodol gael ei mesur yn ôl yr amcanion hyn.

*'Cryfder y rhaglen yw sut y mae wedi tyfu a sut mae'n cyd-fynd yn dda â'r cwricwlwm newydd a Bagloriaeth Cymru. Mae'n berthnasol iawn, a bydd hyn yn helpu gydag unrhyw fersiynau o'r rhaglen yn y dyfodol ac yn cefnogi'r berthynas ag ysgolion. Mae'n cyfrannu at newid meddyliau pobl ifanc a rhoi ysbryd 'gallu gwneud' iddyn nhw.'* Rhanddeiliad

Roedd nifer o argymhellion o'r adolygiad o MMCCCh y dylid eu hystyried mewn perthynas â dyluniad y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys argymhelliad y dylai Canllawiau Statudol newydd ar gyfer addysg gyrfaoedd hyrwyddo'r adnoddau MMCCCh a'r partneriaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a chefnogi ysgolion i gysylltu gweithgareddau MMCCCh â'r cwricwlwm newydd. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyfa Cymru, ysgolion a chynrychiolwyr consortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod dysgu proffesiynol ar gael i arweinwyr cwricwlwm addysg gyrfaoedd a byd gwaith yn ogystal â staff addysgu ehangach ar draws pob ysgol ac y dylai ysgolion bennu person penodedig i fod yn gyfrifol am MMCCCh er mwyn hybu menter fel strategaeth ysgol gyfan.

### 3. Y prif ganfyddiadau ynghylch effaith y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Fel y nodir yn adran 1.1, mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn gweithredu ar sail dau ddull cyflawni gwahanol:

- Gwasanaethau Menter Ieuenctid a ddarperir o dan faner Syniadau Mawr Cymru - rhaglen yn ymwneud â newid diwylliannol gyda'r nod o godi dyheadau a gwella dealltwriaeth o fenter drwy'r ymgyrch Syniadau Mawr Cymru, a
- Dyfarniadau Grant i SAU a SAB gyda'r nod o annog sefydliadau i ymgorffori entrepreneuriaeth drwy ddarparu gweithgareddau entrepreneuriaeth ar draws y blynyddoedd academaidd a chefnogi myfyrwyr ar eu taith tuag at ddechrau busnes.

Mae'r ddau ddull cyflawni yn canolbwyntio ac yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â themâu'r 4 elfen - gweler adran 1.1

Mae'r adran hon yn archwilio effaith y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid a'r cynnydd yn erbyn y pedair elfen o fewn y ddau ddull cyflawni hyn gan ddefnyddio data meintiol o'r ymchwil desg a'r dogfennau yn ogystal â'r adborth a gynigiwyd yn ystod cyfweiliadau â rhanddeiliaid y manylir arnynt yn y fethodoleg - adran 1.3.

#### Gwasanaethau Menter Ieuenctid Syniadau Mawr Cymru

Mae'r dull cyflawni hwn wedi cefnogi ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid y tu allan i fyd addysg. Mae'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a ddarperir fel rhan o Syniadau Mawr Cymru yn cynnwys:

- Cystadlaethau Menter i ysgolion cynradd ac uwchradd
- Cynnal gweithdai ysbrydoledig a gweithdai syniadau busnes a sesiynau gweminar mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a lleoliadau ieuenctid y tu allan i fyd addysg
- Bwtcamps preswyl ar benwythnosau (cyn Covid). Cynhaliwyd bwtcamps yn ystod / ar ôl Covid fel sesiynau gweminar ar-lein yn canolbwyntio ar faterion penodol.
- Cymorth un-i-un gan gynghorwyr busnes
- Grant dechrau busnes o £2,000

#### Gweithgareddau a ariennir gan grantiau AB/AU

Darparwyd cyllid grant y rhaglen i sefydliadau AB ac AU i'w cefnogi i ymgysylltu â phobl ifanc yn eu sefydliadau a'u cyflwyno i entrepreneuriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig o fewn SAB, defnyddiwyd y grant i ariannu rôl Pencampwr Entrepreneuriaeth y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth yn eu sefydliad, yn ogystal â meithrin a chefnogi entrepreneuriaid ifanc ar hyd y daith tuag at ddechrau busnes. Bwriad y cyllid grant a ddarparwyd yn ystod 2019-2021 oedd cefnogi sefydliadau i ganolbwyntio ar y themâu Ymbaratoi a Galluogi. Roedd disgwyl i sefydliadau gymryd cyfrifoldeb am Ymgysylltu a Grymuso myfyrwyr a graddedigion drwy rôl y Pencampwr Entrepreneuriaeth a ariannwyd fel galluogwr ac o'r cymorth sydd ar gael drwy wasanaethau Syniadau Mawr Cymru.

Nid yw gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru a gwasanaethau cymorth grant AB-AU yn cael eu darparu yn gwbl ar wahân i'w gilydd. Mae gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn aml yn cefnogi gweithgareddau menter ac entrepreneuriaeth wedi'u hariannu gan grantiau a ddarperir mewn SAB a SAU. Yn yr un modd, mae gweithgareddau menter sydd ar gael i ysgolion, colegau a phrifysgolion nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid hefyd yn cefnogi neu'n ategu gweithgareddau Syniadau Mawr Cymru ac yn aml yn cyfrannu at y canlyniadau ehangach a gyflawnir gan y gwasanaethau hyn.

Mewn rowndiau cyllid grant AB-AU blaenorol gosododd Llywodraeth Cymru dargedau cyflawni y disgwyliid i sefydliadau eu cyrraedd. Fodd bynnag, yng nghylch cyllido diweddaraf 2019-21 roedd sefydliadau'n gyfrifol am osod eu targedau eu hunain a nodi sut yr oedd y cyllid yn eu cefnogi i'w cyflawni. Nod hyn oedd annog sefydliadau i gymryd perchnogaeth o'u gweithgareddau entrepreneuriaeth ac nid dim ond eu cyflawni oherwydd bod y meini prawf cyllido yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Roedd hyn yn gysylltiedig â nod pellach o annog sefydliadau i ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu blaenoriaethau strategol.

### 3.1 Sut y mae gwasanaethau cyflawni yn cefnogi'r 4 elfen

Mae Gwasanaethau Menter Ieuenctid Syniadau Mawr Cymru a gweithgareddau a ariennir gan grant AB-AU yn ymwneud â phob un o'r 4 elfen wedi'u crynhoi'n fanylach isod:

#### Ymgysylltu: Codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth a'r dyhead i fod yn entrepreneuraidd

##### **Gweithgareddau Ymgysylltu a gefnogir gan weithgareddau Syniadau Mawr Cymru**

Ymhlith y gweithgareddau ymgysylltu a ddarperir drwy Syniadau Mawrth Cymru mae sesiynau gweithdai Ysbrydoli a gyflwynir mewn ysgolion, colegau a lleoliadau ieuenctid y tu allan i fyd addysg gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o entrepreneuriaeth a chynnig blas iddynt o'r hyn sydd ei angen i fod yn entrepreneur llwyddiannus. Cyflwynir y gweithdai hyn yn aml gan Fodelau Rôl busnes Syniadau Mawr Cymru - pobl fusnes go iawn sy'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi drwy Syniadau Mawr Cymru i gyflwyno sesiynau pwrpasol i grwpiau o bobl ifanc. Yn ystod y sesiynau neu'r gweithdai hyn, mae Modelau Rôl yn rhannu eu stori bersonol o ddechrau busnes gyda'r nod o ysbrydoli entrepreneuriaid y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y mae Modelau Rôl yn gweithredu yn adran 3.2.1 isod

Mae gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru hefyd yn cyflwyno gweithdai Archwilio Syniadau Mawr. Gweithdai dysgu mwy arbrofol yw'r rhain gyda'r nod o fagu hyder a rhoi cyfle i bobl ifanc rannu eu syniadau busnes gydag entrepreneuriaid yn ogystal â deall yr agweddau mwy ymarferol ar ddechrau busnes. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn helpu pobl ifanc sy'n cymryd rhan i gynhyrchu syniadau busnes ac i greu cynllun gweithredu er mwyn rhoi eu syniad ar waith.

Mae Modelau Rôl a recriwtiwyd drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, yn chwarae rhan annatod ym mron pob un o'r gweithdai hyn, ac mae cydlynwyr rhanbarthol Syniadau Mawr Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth drefnu a chydlynu gweithdai.

##### **Gweithgareddau Ymgysylltu a gefnogir drwy'r Grant AB/AU**

Yn yr un modd â gweithgareddau Ymgysylltu, nid yw'r cyllid grant a ddyrennir i sefydliadau AB ac AU yn ariannu gweithgareddau Grymuso yn uniongyrchol, neu ni fwriedir iddo wneud hynny. Fodd bynnag, mae rôl yr Pencampwyr Entrepreneuriaeth (sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu hariannu drwy'r grant) yn cynnwys, ymhlith llu o bethau eraill, codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o entrepreneuriaeth sy'n dod yn uniongyrchol o dan y thema Ymgysylltu.

Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth mewn sefydliadau AB ac AU yn aml yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth yn ystod digwyddiadau sefydlu. Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth hefyd yn trefnu, drwy gydlynwyr rhanbarthol Syniadau Mawr Cymru, gweithdai Ysbrydoli a Syniadau dan arweiniad Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru. Yn hynny o beth, mewn llawer o achosion, mae'r grant AB-AU, yn anuniongyrchol, yn ariannu llawer o weithgareddau Ymgysylltu mewn AB ac AU drwy Rôl alluogi'r Pencampwyr Entrepreneuriaeth (gweler adran 3.2.2 isod).

Mae'r graddau y mae SAB a SAU yn defnyddio adnoddau a ariennir drwy grant (Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn bennaf) i gyflwyno gweithgareddau Ymgysylltu, yn amrywio ar draws sefydliadau; ac yn gyffredinol, mae'r ffordd y defnyddir y grant ar draws SAU yn aml yn wahanol iawn i'r ffordd y defnyddir y cyllid mewn SAB. Er enghraifft, nid yw llawer o SAU yn defnyddio unrhyw arian grant i gefnogi gweithgareddau Ymgysylltu (neu Grymuso); er eu bod yn dal i gofnodi'r gweithgareddau hyn ac yn adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd ddwywaith y flwyddyn fel rhan o'u cyfraniad at y cofnodion monitro Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Ar y llaw arall mae llawer o SAB yn defnyddio grant / amser y Pencampwr Entrepreneuriaeth i gyflawni llawer o weithgareddau Ymgysylltu (a Grymuso).

Nododd y Pencampwyr Entrepreneuriaeth a rhanddeiliaid eraill a gyfwelwyd yn ystod yr adolygiad hwn hefyd fod COVID wedi cael effaith negyddol ar hyder myfyrwyr AB ac AU ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddechrau eu busnes eu hunain. O'r herwydd, roedd rôl y Pencampwyr ac felly'r cyllid a roddwyd drwy'r grant, yn canolbwyntio'n gynyddol ar godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd i ddechrau busnes a chodi eu dyheadau i ddechrau eu busnes eu hunain – h.y. Gweithgareddau ymgysylltu – yn ystod 2020/21.

### **Ymgysylltu: Y prif gyflawniadau yn erbyn y targedau:**

Mae data monitro'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn dangos y rhagorwyd ar y targedau 'Ymgysylltu' ar gyfer y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid o 2016-2022 yn y rhan fwyaf o feysydd ar wahân i dargedau wyneb yn wyneb, y mae COVID yn anochel wedi effeithio arnynt.

Tabl 3.2: Cyflawni Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru ar y cyd yn erbyn targedau'r rhaglen a osodwyd ar gyfer y 4 elfen. **Rhagorwyd yn gyson ar dargedau Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru** drwy'r rhaglen (2016-2021)

**Targedau a chyflawniadau'r Gwasanaeth Entrepreneuriaeth leuenctid Ionawr 2016 i Awst 2022**

Diffiniad o'r Allbwn	Dadansoddiad fesul Sector	Targed Blynyddol	Targed Ionawr 2016-Awst 2022	Cyfanswm a Gyflawnwyd	Amrywiad
Nifer y gweithdai Ysbrydoli	Ysgolion Cyn-16	710	6,419	5,951	-468
	<b>Cyfanswm y Disgyblion Ysgol sy'n cymryd rhan mewn Gweithdai Ysbrydoli</b>	17,618	156,226	149,506	-6,720
				*cyflawniad yr effeithiwyd arno yn sgil cau ysgolion yn 2020/1	
Nifer y Gweithdai Archwilio/Wedi'u Teilwra	Ysgolion Ôl-16	225	1,933	1,409	-524
	Addysg Bellach	480	3,114	3,344	+230
	Addysg Uwch	250	1,566	1,599	+33
	Addysg Allanol	350	2,303	1,890	-413
	<b>Cyfanswm y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymweliadau archwilio/wedi'u teilwra</b>	33,251	189,647	194,906	+5,259
<b>TARGED CYNRADD:</b> Cyfanswm y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch codi ymwybyddiaeth (a gynhelir wyneb yn wyneb)		50,000	326,922	353,156	+26,234
<b>TARGED CYNRADD:</b> Cyfanswm y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes		4,000	26,095	41,470	+15,375
Canlyniadau ymgyrchoedd (ymweliadau â'r we)		40,000	214,125	298,918	+84,793

Cyfanswm yr unigolion sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen digwyddiadau		636	3,743	5,976	+2,233
<b>TARGED CYNRADD:</b> Cyfanswm y bobl ifanc sy'n cael eu meithrin i ddechrau busnes		500	2,724	3,108	+384
Nifer yr unigolion sy'n dechrau busnes		60	375	528	+153

### Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru - Uchafbwyntiau Ymgysylltu

- Ymgysylltwyd â phob ysgol yng Nghymru gan dîm cyflawni Syniadau Mawr Cymru yn ystod 2016-2021.
- Roedd y nifer a gymerodd ran yng **ngweithdai Ysbrydoli ac Archwilio Syniadau Mawr** yn ystod 2016-2021 uwchlaw'r targed ar gyfer ysgolion cyn-16 ac ôl-16 hyd at 2020. Ni chyrrhaeddwyd y targedau yn ystod 2020-21 a 2021-22 oherwydd COVID - gweler tabl 3.3 hefyd
- Cymerodd pob ysgol uwchradd ac ysgol ganol yng Nghymru ran mewn o leiaf rai gweithdai Ysbrydoli, Archwilio neu weithdai eraill wedi'u teilwra yn ystod y cyfnod 2016-2021. Roedd hwn yn darged a osodwyd ar gyfer diwedd y rhaglen (2022) ond fe'i cyflawnwyd erbyn 2021.
- Roedd lefelau gweithgaredd ysgolion uwchradd ac ysgolion canol yn amrywio yn ystod 2016 – 2021. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (67%) wedi cymryd rhan mewn 30 o weithdai Ysbrydoli, Archwilio neu weithdai wedi'u teilwra, neu wedi manteisio arnynt, cymerodd tua thraean o ysgolion ran mewn 30-80 o sesiynau gweithdai a chymerodd 5% ran mewn 80 neu fwy o weithdai ar draws cyfnod y rhaglen.
- Roedd lefel gweithgaredd ysgolion (canol ac uwchradd) hefyd yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Gwelwyd y cyfranogiad mwyaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr (ar gyfartaledd cymerodd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ran mewn gweithgaredd gweithdy 58 gwaith dros gyfnod y rhaglen), Ynys Môn (43 gwaith ar gyfartaledd), Abertawe (39) a RhCT (38), o gymharu â Sir Benfro (20) a Phowys (15).
- Ar draws ysgolion, AB ac AU, ymgysylltodd Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru â thros 315,000 o bobl ifanc, ac roeddent ar y blaen o ran cyrraedd y targed cyn y pandemig. Fodd bynnag, roedd ymgysylltiad wyneb yn wyneb ar gyfer ysgolion, AB ac AU yn is na'r targed, ac effeithiodd COVID ar y niferoedd oherwydd i sefydliadau addysg orfod cau. Fodd bynnag, addasodd darparwr gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn gyflym gan newid i ddarpariaeth ddigidol er mwyn cynnal sesiynau rhithwir - gweler tabl 3.3 hefyd

## Targedau ymgysylltu mewn AB ac AU

Fel y nodwyd uchod, nid bwriad y grant Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid oedd cefnogi gweithgareddau ymgysylltu. Fodd bynnag, fe wnaeth Pencampwyr Entrepreneuriaeth a gefnogwyd gan arian grant gynnal gweithgareddau Ymgysylltu yn eu sefydliadau a galluogi gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru i wneud hynny.

- **Rhagorwyd yn gyson ar dargedau Ymgysylltu** ar gyfer AB ac AU drwy'r rhaglen (2016-2021)

## Effaith gweithgareddau Ymgysylltu

Mae'n ymddangos bod y gweithgareddau Ymgysylltu a gefnogir wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiddordebau a brwdfrydedd pobl ifanc mewn perthynas â hunangyflogaeth a / neu ddechrau eu busnes eu hunain. Er enghraifft, roedd ffigurau monitro Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru ar gyfer nifer y bobl ifanc (Ysgolion/AB/AU) â diddordeb mewn dechrau busnes uwchlaw'r targed ar draws y rhaglen.

Adlewyrchir effaith gadarnhaol gweithgareddau Ymgysylltu hefyd yn y safbwyntiau cadarnhaol a adroddwyd yn yr Arolwg Omnibws Plant (2021) ar gyfer pobl ifanc 10–18 oed.<sup>5</sup> Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod cyfran y bobl ifanc 10 i 18 oed a holwyd a oedd yn ymwybodol o fod yn fôs arnyn nhw eu hunain neu ddechrau busnes fel opsiynau gyrfa a oedd ar gael iddynt wedi cynyddu o 77% yn 2019 i 84% yn 2021. Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn nodi bod nifer y disgyblion 10 i 18 oed sy'n meddwl y byddent yn debygol o fod eisiau neu'n bendant eisiau rhedeg eu busnes eu hunain ar ôl gadael yr ysgol wedi cynyddu o 53% yn 2019 i 65% yn 2021. Gwelwyd gwelliannau hefyd yn yr awydd i ddechrau busnes yn gyffredinol rhwng 2019 a 2021, yn enwedig ymhlith menywod.

Mae'r canfyddiadau hyn yn amlinellu effaith gadarnhaol gweithgareddau Ymgysylltu o ran codi ymwybyddiaeth a dyheadau pobl ifanc o entrepreneuriaeth a'i gwerth.

## Grymuso: Rhoi cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc a datblygu sgiliau.

### Gweithgareddau grymuso a gefnogir drwy wasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Mae gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru wedi hyrwyddo'r thema Grymuso mewn amrywiol ffyrdd o fewn ei darpariaeth gan gynnwys cystadlaethau i ysgolion cynradd fel Criw Mentrus, a chystadleuaeth i ysgolion uwchradd fel Dathlu Syniadau Mawr (sydd bellach wedi dod i ben). Mae'r cystadlaethau'n ategu'r gweithgareddau menter y mae ysgolion eisoes yn eu cynnal ac yn cynnig cyfle i ddysgwyr sy'n cymryd rhan gystadlu yn erbyn ei gilydd ac arddangos eu gweithgareddau menter a'r cynhyrchion a grëwyd ac a werthwyd yn y broses. Fel rhan o'r cystadlaethau, caiff y dysgwyr sy'n cymryd rhan ynddynt eu cyflwyno i egwyddorion menter gan ddefnyddio sgiliau a phriodoleddau ACRO (Agwedd, Creadigrwydd, Cyfrifoldeb a Threfniadaeth). Darparodd y prosiect Criw Mentrus hefyd

<sup>5</sup> Arolwg Omnibws Plant. Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Beaufort Research Tachwedd 2021



rywfaint o adnoddau addysgu a modiwlau hyfforddi ar-lein yn ymwneud â menter i ymarferwyr dysgu.

Mae'r thema Grymuso hefyd yn cael ei chefnogi gan amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i gwmpas y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid ond sydd, serch hynny, yn ategu'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o dan y thema hon. Mae'r rhain yn cynnwys

- gweithgareddau addysg drwy weithredu'r cwricwlwm newydd,
- dysgu seiliedig ar waith, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau,
- gweithgaredd ymgysylltu â chyflogwyr / profiad gwaith Gyrfa Cymru,

Mae yna hefyd gyfleoedd nodedig sy'n cefnogi'r thema hon gan gynnwys Menter yr Ifanc a Dreigiau Busnes Ifanc.

### **Gweithgareddau Grymuso a gefnogir gan y Grant AB/AU**

Yn yr un modd â gweithgareddau Ymgysylltu, nid yw'r cyllid grant a ddyrennir i sefydliadau AB ac AU yn ariannu gweithgareddau Grymuso yn uniongyrchol, neu ni fwriedir iddo wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n derbyn grantiau AU ac AB a Phencampwyr Entrepreneuriaeth a ariennir gan y grantiau wedi defnyddio'r arian i gefnogi amrywiol weithgareddau Grymuso sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd myfyrwyr gan gynnwys:

- Gweithdai i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu setiau sgiliau ARCO ymhellach.
- Sesiynau sgiliau entrepreneuriaeth a chyflogadwyedd gan gynnwys gweminarau sy'n cwmpasu pob un o'r 15 Cymhwysedd Entrecomp.<sup>6</sup>

Cyflwynwyd llawer o'r sesiynau hyn ar y cyd â gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru, wedi'u cydlynu gan Bencampwyr Entrepreneuriaeth a'u harwain gan Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru. Mae rhai gweithdai hefyd wedi cael eu harwain gan wasanaethau Busnes Cymru i ychwanegu gwerth a lleihau dyblygu. Yn nodweddiadol, bydd y gweithdai hyn yn cynnwys siaradwyr gwadd entrepreneuriaidd (modelau rôl), bydd pynciau'n cynnwys nodi marchnadoedd busnes, cynllunio busnes, cynllunio ariannol, modelau busnes a ffynonellau cyllid – sydd oll yn sgiliau a chymhwyseddau entrepreneuriaidd craidd.

Mae adolygiad dwy flynedd o Wobrau'r Grant Entrepreneuriaeth Ieuencid<sup>7</sup> yn amlinellu bod sefydliadau yn ystyried yn gynyddol bod nodweddion entrepreneuriaidd megis meddylfryd rhagweithiol, creadigrwydd ac arloesedd, datrys problemau, rheoli amser a gwytnwch, yn sgiliau bywyd hanfodol. Mae effaith negyddol COVID ar hyder a gwytnwch pobl ifanc wedi rhoi mwy o bwyslais fyth ar yr angen cyffredinol am y sgiliau hyn ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth o fewn sefydliadau hefyd wedi cefnogi gweithgareddau a sesiynau, gyda'r nod o annog a chefnogi cydweithwyr yn eu sefydliad i ymgorffori entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm. Mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi amrywio yn ystod cyfnod y rhaglen gyda'r Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn nodi bod rhai tiwtoriaid pwnc, darlithwyr a / neu gyfadrannau yn gyndyn o gofleidio hyn. Ar y llaw arall, fe wnaethant hefyd amlinellu cyfleoedd posibl i gyflwyno mwy o sgiliau entrepreneuriaeth i gyrsiau galwedigaethol - yn enwedig mewn SAB.

<sup>6</sup> Mae'r [fframwaith EntreComp](#) yn ddiffiniad a rennir o entrepreneuriaeth fel cymhwysedd, sy'n cynnwys 3 maes cymhwysedd cyd-gysylltiedig: 'Syniadau a chyfleoedd', 'Adnoddau' ac 'Ar Waith', pob un ohonynt yn cynnwys 5 cymhwysedd, sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio conglifeini entrepreneuriaeth.

<sup>7</sup> Adolygiad dwy flynedd o Ddyfarniadau Grant Entrepreneuriaeth Ieuencid i AB ac AU Ionawr 2019 – Rhagfyr 2020 (Red Box Research)





## Grymuso: Y prif gyflawniadau yn erbyn y targedau:

### Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Ymgysylltwyd â 176 o ysgolion cynradd drwy'r gystadleuaeth Criw Mentrus<sup>8</sup>. Daeth gwerthusiad diweddar o'r Criw Mentrus i'r casgliad fod y dysgwyr a'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn cael nifer o ganlyniadau cadarnhaol gan gynnwys sgiliau ACRO a gwerthoedd moesegol. Fodd bynnag, daeth y gwerthusiad hefyd i'r casgliad fod y cyfranogiad yn parhau i fod yn llai na'r disgwyl ac mai cyfran gymharol fach o'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cymryd rhan.

### AU ac AB

Ar gyfer AB ac AU, rhagorwyd ar y targedau 'Grymuso' yn ystod y cyfnod cyllid grant diwethaf 2019-2021 gyda chyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuriaidd, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad (35,839) yn rhagori ar y targed o 22,278 a osodwyd gan y sefydliadau eu hunain.

### Effaith gweithgareddau Grymuso

Gellir ystyried effaith gweithgareddau Grymuso a gefnogir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yng nghyd-destun i ba raddau y mae gan bobl ifanc yng Nghymru y cymhelliant, yr hyder, yr ysfaf a'r gallu i ddechrau busnes. Mae adroddiad Enterprise Catalyst (ECAT) 2020 – 2021 yn mesur hyn o ran Tanwydd Menter.<sup>9</sup>

- Dengys canfyddiadau'r adroddiad fod Tanwydd Menter ar ei uchaf ymhlith myfyrwyr AB/AU 25+ oed, efallai'n adlewyrchu cyfuniad o'u profiad academaidd a'u profiad gwaith ac yn is ar gyfer myfyrwyr AB o dan 16 oed. (Adroddiad ECAT 2020-2021)
- Roedd lefel y Tanwydd Menter yn llawer is ymhlith plant ysgol o dan 11 oed a phobl â hunaniaeth rhywedd arall.

Noda adroddiad GEM (2020)<sup>10</sup> fod dros 40% o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru yn dweud bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes pe baent yn penderfynu gwneud hynny. Mae hyn yn awgrymu bod unigolion yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddechrau busnes hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud hynny eto. Mae canfyddiadau GEM hefyd yn dangos gwytnwch o fewn poblogaeth Cymru o ran y gallu i ddechrau busnes llwyddiannus a gwybodaeth am yr amodau i wneud hynny ac mae'n amlinellu bod lefel entrepreneuriaeth ieuencid yng Nghymru yn sylweddol uwch yn 2020 nag yr oedd yn 2001. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol o leiaf y ffaith bod gan bobl ifanc Cymru y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i ddechrau eu busnes eu hunain.

<sup>8</sup> Gwerthusiad o'r Gystadleuaeth i Ysgolion Cynradd - Criw Mentrus; Ymchwil Arad (2021)

<sup>9</sup> Mae 'Tanwydd Menter' yn ddangosydd cyfansawdd sy'n cynnwys tri mesur gwahanol; 'Cymhelliant ac Ysfaf', 'Y Gallu i Hunanbenderfynu a Dylanwadu' a 'Parodrwydd i Ddysgu'. Yr uchaf yw lefel y Tanwydd Menter, y cryfaf yw'r sail i adeiladu arni ar gyfer gweithgarwch entrepreneuriaidd yn y dyfodol

<sup>10</sup> GEM UK: Adroddiad Cymru 2020

## Ymbaratoi: Cefnogi pobl ifanc i sefydlu a thyfu busnesau

### Gwasanaethau Ymbaratoi Syniadau Mawr Cymru

O dan y thema hon mae pobl ifanc wedi cael eu cefnogi drwy ystod o Wasanaethau Entrepreneuriaeth leuencid Syniadau Mawr Cymru. Un o'r gwasanaethau allweddol a ddarperir yw'r gwasanaeth cymorth un-i-un a gynigir i bobl ifanc sydd â syniadau busnes sefydledig ond sydd angen cymorth ychwanegol i droi eu syniad yn fusnes newydd. Mae'r tîm Ymbaratoi yn cynnig cyngor ac arweiniad pwrpasol i'r bobl ifanc hyn yn ymwneud ag arferion busnes megis marchnata, cyllid a/neu fynediad i eiddo ac ati.

Mae gwasanaethau Ymbaratoi eraill Syniadau Mawr Cymru sydd ar gael i bobl ifanc yn cynnwys:

- Yr ymgyrch Gyfathrebu a'r rhwydwaith Entrepreneuriaid Ifanc,
- Digwyddiadau a gweithdai dechrau busnes,
- Dysgu ar-lein (BOSS / Simply Do),
- Cymorth ar ffurf Mentora a Model Rôl,
- Her Bwtcamp i Fusnes,
- Rhwydwaith Entrepreneuriaid Ifanc,
- Digwyddiadau Busnes Cymru a'r Rhaglen Cyflymu Twf a darparu gwasanaethau a Chyflymydd (Hybiau Menter).
- Grantiau dechrau busnes – hyd at £2,000

Mae Syniadau Mawr Cymru yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu syniadau busnes i'r pwynt lle mae eu busnes yn cael ei lansio. Ar ôl i'w busnes gael ei lansio, caiff y bobl ifanc hyn eu cyfeirio at y cymorth ar ôl dechrau busnes a gynigir gan Busnes Cymru. Mae darpariaeth a ffocws gwasanaethau Ymbaratoi Syniadau Mawr Cymru yn ystyried bod pobl ifanc fel arfer yn cymryd mwy o amser na phobl dros 25 oed i droi eu syniad busnes yn fusnes newydd.<sup>11</sup>

### Ymbaratoi: Prif gyflawniadau Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn erbyn y targedau:

Rhagorwyd ar dargedau ymbaratoi gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn ystod cyfnod y rhaglen (2016-2021). Rhagorwyd ar y targed cynradd; *Nifer y Bobl Ifanc sy'n cael eu Meithrin* o 383. Rhagorwyd ar y targed ar gyfer nifer y bobl ifanc a gafodd gymorth i ddechrau busnes o 153. Gweler Tabl 3.2.

Mae hyn wedi bod yn gyflawniad sylweddol i wasanaethau Syniadau Mawr Cymru. Fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc, mae'r targed hwn bellach wedi'i ymestyn gan ychwanegu 400 o fusnesau newydd y flwyddyn. Sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y maes hwn.

### Gweithgareddau Ymbaratoi a gefnogir gan y Grant AB/AU

<sup>11</sup> Yn 2017 comisiynodd y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth ymchwil i ddyheadau entrepreneuriaid ifanc. Datgelodd canlyniadau'r 'Ymchwil i Ddyheadau' hwn fod pobl ifanc rhwng 18-30 fel arfer yn cymryd 15-18 mis i symud ymlaen o syniad cychwynol i ddechrau busnes, gan gynnwys cyfnod cynllunio 6 mis, a nododd fwch rhwng dyhead uchel a symud ymlaen i sefydlu busnes newydd cynaliadwy.

\*\*Capasiti entrepreneuriaid (cydnabyddiaeth o gyfleoedd a phrofiad entrepreneuriaid blaenorol - h.y., gallu cydnabyddedig i weithredu mewn ffordd entrepreneuriaid).

Mae sefydliadau AB ac AU hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau Ymbaratoi a gefnogir gan y grantiau hyn yn cynnwys:

- Profi cyfleoedd masnachu - drwy nawdd gan bartneriaid,
- cymorth un-i-un gan y Pencampwyr Entrepreneuriaeth,
- Digwyddiadau, Gweithdai a rhwydweithiau a chyfleusterau deori – gan gynnwys cyfleusterau deori sydd ar gael mewn rhai sefydliadau a thrwy Hybiau Menter a gefnogir gan Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru hefyd yn darparu cymorth cyn sefydlu busnes mewn sefydliadau i ddarparu entrepreneuriaid 25 oed a hŷn, ond mae'n cynnwys gwasanaethau tebyg megis gweithdai cynllunio busnes a chymorth mentora 1:1, a gynigir gan wasanaethau Syniadau Mawr Cymru. Er mai'r bwriad yw bod y gwasanaethau hyn yn darparu gwasanaethau Ymbaratoi yn benodol ar gyfer unigolion o fewn gwahanol grwpiau oedran, mae gorgyffwrdd o bryd i'w gilydd rhwng y gwasanaethau a ddarperir. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn adlewyrchu diffyg rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng Busnes Cymru a Syniadau Mawr Cymru. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn nad yw'r gwahanol fathau o gymorth Ymbaratoi sydd eu hangen ar unigolion o reidrwydd yn seiliedig ar oedran. Felly, gellir cyfiawnhau rhywfaint o orgyffwrdd rhwng gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru oherwydd y gwahanol anghenion sydd gan ddarparu entrepreneuriaid o bob oed ar gamau amrywiol yn eu proses ddatblygu eu busnes newydd. O'r herwydd, dylai hyblygrwydd parhaus yn oedran unigolion a gefnogir gan Busnes Cymru a Syniadau Mawr Cymru barhau lle y bo'n briodol i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid darparu'r dull hyblyg hwn drwy fwy o gyfathrebu a chydweithio rhwng y ddau sefydliad.

### **Ymbaratoi: Y prif gyflawniadau yn erbyn y targedau:**

Rhagorwyd ar y targedau ymbaratoi ar gyfer sefydliadau AB ac AU ar draws cyfnod y rhaglen (2016-2021) ar wahân i gyfanswm y busnesau a ddechreuwyd.

### **Effaith gweithgareddau Ymbaratoi**

Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi cael effaith gadarnhaol ar lefel entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru. Mae nifer y busnesau newydd a sefydlwyd gan raddedigion wedi cynyddu ac maent ar y blaen i gyfartaledd y DU ac mae Cymru hefyd wedi cau'r bwch ac ar yr un lefel â gweddill y DU o ran busnesau newydd yn gyffredinol. Mae lefelau entrepreneuriaeth ieuenctid wedi cynyddu'n sylweddol a gellir tybio bod gweithgareddau Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Mae Cymru hefyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â chau'r bwch rhwng y rhywiau o ran busnesau sy'n cael eu sefydlu a busnesau newydd o gymharu â gwledydd eraill y DU.

- Mae proffil cwmnïau a sefydlir gan raddedigion yng Nghymru fel % o gyfanswm y DU wedi gwella rhwng 2016/2017 (5.9%) a 2019/2020 i 8.8%. (HEBCIS)
- Yn yr un modd, mae'r gyfradd orosi 3 blynedd hefyd wedi gwella rhwng 2015/2016 (12.2%) a 2018/19 (16.9%) gyda gostyngiad bach yn 2019/2020 (15.9%), y gellir o bosibl ei briodoli i Covid (HEBCIS)

- Mae Cymru ar yr un lefel â gweddill y DU o ran busnesau newydd (GEM 2021)
- Mae lefel entrepreneuriaeth ieuentid yng Nghymru yn sylweddol uwch yn 2021 (10%) nag yn 2002 (2%). (GEM 2021)<sup>12</sup>
- Mae Cymru'n gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cau'r bwllch rhwng y rhywiau o gymharu â Lloegr a'r Alban: roedd cyfradd cyfanswm TEA (total early stage) Cymru ar gyfer benywod yn 9.8% ac yn 10.7% ar gyfer gwrywod, a dyma oedd y cyfraddau uchaf a gofnodwyd erioed ar gyfer Cymru. (GEM 2021)

## Galluogi: Hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu entrepreneuraidd ac arfer da yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Un o nodau allweddol y gweithgareddau Galluogi a ddarperir gan y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid yw cefnogi cysylltedd a chydlyniant rhwng gwasanaethau entrepreneuriaeth ieuentid yng Nghymru – yr ecosystem entrepreneuriaeth a ysbrydolwyd gan ethos [Creu Sbarc](#). Mae llawer o'r gweithgareddau sy'n ymwneud â'r thema Galluogi yn cael eu cyflwyno drwy'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth. Mae'r Gyfnewidfa yn chwarae rhan allweddol mewn galluogi entrepreneuriaeth ar draws partneriaid yr ecosystem, gan gysylltu'r cymorth sydd ar gael ar draws y farchnad, cyflwyno sefydliadau i'w gilydd at ddibenion cydweithio a chefnogi'r ddarpariaeth. Adolygir hyn yn fanylach yn adran 3.6.

Mae cryfhau cysylltedd a chydlyniant ar draws gwasanaethau a rhyngddynt hefyd yn cael ei gefnogi o fewn rôl Gweithredwyr Rhanbarthol Syniadau Mawr Cymru sy'n gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i gysylltu cefnogaeth a sicrhau bod y rhaglen Syniadau Mawr Cymru yn cael ei chynrychioli mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

### Y Rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth

Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth o fewn sefydliadau AB ac AU hefyd yn chwarae rhan ganolog o ran annog cydweithwyr o fewn eu sefydliadau i gefnogi entrepreneuriaeth ac i 'hyrwyddo' entrepreneuriaeth yn eu maes pwnc. Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth hefyd wedi cefnogi'r ecosystem entrepreneuriaeth yng Nghymru drwy'r rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth. Yn y gorffennol mae'r rhwydwaith wedi cwrdd mewn gwahanol leoliadau. O ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith y Pencampwr Entrepreneuriaeth ar-lein yn ystod 2020 - 2021. Nododd rhai Pencampwyr fod cynnal cyfarfodydd rhwydwaith ar-lein yn annog cyswllt amlach a mwy o weithgareddau cydweithredol rhwng sefydliadau.

Roedd y farn ynghylch y rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi bod yn rhan o rwydwaith ehangach gyda sefydliadau AU ac yn teimlo eu bod yn rhan o strwythur cymorth mwy ar gyfer entrepreneuriaeth. Roedd rhai hefyd yn meddwl bod y rhwydwaith yn feincnod effeithiol ar gyfer cymorth menter ar draws y sector AB-AU yng Nghymru, ac yn rhoi cyfle i gydweithio, mynd i'r afael â heriau cyffredin, a meithrin ysbryd tîm. Defnyddiwyd rhwydwaith y Pencampwyr Entrepreneuriaeth i drefnu digwyddiadau ar y cyd fel wythnos Cychwyn Busnes yr Haf; croesawu siaradwyr gwadd; rhannu adnoddau ac arfer gorau. Mewn rhai achosion, sefydlwyd is-rwydweithiau mwy rhanbarth-benodol ar gyfer ardaloedd e.e. ardaloedd gwledig gorllewin Cymru. O'r herwydd, gellir ystyried bod rhwydwaith y

<sup>12</sup> Adroddiadau'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd Eang (GEM UK) Cymru | LLYW.CYMRU

Pencampwyr Entrepreneuriaeth wedi cyfrannu'n dda at gefnogi thema Galluogi'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a chryfhau'r ecosystem entrepreneuriaidd yng Nghymru.

### **Cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg, Syniadau Mawr Cymru a gwasanaethau eraill**

Ar draws ysgolion, sefydliadau AB ac AU mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth a chydylynwyr menter yn aml yn ymgysylltu â gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru ac yn eu harchebu i ategu gweithgareddau menter ac entrepreneuriaeth eraill y maent yn eu cefnogi yn eu sefydliadau. Y gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru a ddefnyddir amlaf ar draws sefydliadau yw'r rhai a ddarperir gan Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru. Mae ymgysylltiad AB-AU â Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru wedi amrywio ar draws sefydliadau gyda rhai sefydliadau yn eu defnyddio'n helaeth tra bod eraill wedi ymgysylltu â'r Modelau Rôl yn gymharol anaml.

Yn gyffredinol, dywedwyd mai Syniadau Mawr Cymru oedd y 'man cyswllt cyntaf' i Bencampwyr Entrepreneuriaeth AB drefnu Modelau Rôl. Fodd bynnag, dewisodd rhai sefydliadau AB hefyd drefnu i'w hentrepreneuriaid lleol eu hunain weithredu fel modelau rôl yn ystod sesiynau menter, gan eu bod yn teimlo bod y perchnogion busnes hyn yn gallu ymgysylltu'n well â myfyrwyr yn enwedig y rhai ar gyrsiau penodol a oedd yn ymwneud â'r busnesau a oedd yn eiddo i'r modelau rôl a drefnwyd.

*'Rydym yn trefnu mwy o bobl o'r sector creadigol – pobl nad ydynt wedi dilyn llwybrau gwaith traddodiadol. Mae gan lawer ohonyn nhw brofiad newydd o fod yr un oedran â'r myfyrwyr.*

*Mae rhai o bobl Syniadau Mawr Cymru [Modelau Rôl] ychydig yn hŷn felly mae'n braf cael amrywiaeth o safbwyntiau.' Pencampwr Entrepreneuriaeth, coleg AB.'*

Amlygwyd pwysigrwydd 'straeon' am entrepreneuriaeth leol fel rôl bwysig i Fodelau Rôl gan lawer o Bencampwyr Entrepreneuriaeth yn ogystal ag ysgolion ac mae Gweithredwyr Rhanbarthol Syniadau Mawr Cymru yn ceisio sicrhau eu bod yn parhau sefydliadau â Modelau Rôl lleol sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Mae gwasanaethau eraill Syniadau Mawr Cymru y mae sefydliadau AB ac AU yn cael mynediad iddynt yn cynnwys gwasanaethau mentora a chymorth un-i-un a digwyddiadau Bwtcamp a ddarperir gan dîm Ymbaratoi Syniadau Mawr Cymru. Er bod gan y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd mewn SAU farn gadarnhaol am wasanaethau Syniadau Mawr Cymru, dywedodd sawl un ei bod yn well ganddo gynnig ei gymorth un-i-un mewnol ei hun i fyfyrwyr. Er enghraifft, nododd rhai cyfweleion fod yn well gan fyfyrwyr gael cymorth personol nad yw ar gael drwy Syniadau Mawr Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun myfyrwyr â chanddynt ddiffyg hyder. Nododd rhai SAU nad oedd amseriad y gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Syniadau Mawr Cymru (e.e., bwtcamps blynyddol) bob amser yn cyd-fynd ag amseriad digwyddiadau menter a gweithgareddau cymorth a gynlluniwyd gan y SAU. Nododd ambell Bencampwr Entrepreneuriaeth ei fod yn cynllunio ei weithgareddau menter hyd at 18 mis ymlaen llaw, ond ym marn y Pencampwyr hynny, ymddengys fod gweithgareddau Syniadau Mawr Cymru ar gael ar sail fwy 'ad-hoc', sy'n aml yn 'anghynaws' â'u cynlluniau.

Nododd rhai cyfweleion o SAU eu bod yn amharod i gyfeirio myfyrwyr at Syniadau Mawr Cymru gan na all y rhaglen, oherwydd GDPR, rannu data gyda'u sefydliad am y myfyrwyr y maent yn eu helpu. Teimlai'r cyfweleion hyn y gallai'r berthynas rhwng SAU a Syniadau Mawr Cymru fod yn fwy cydweithredol: er enghraifft, SAU yn hyrwyddo'r rhaglen yn gyfnewid am fwy o wybodaeth yn cael ei rhannu â SAU gan Syniadau Mawr Cymru. Nododd cyfweleai arall nad yw Syniadau Mawr Cymru yn manteisio ar yr arbenigedd o fewn prifysgolion i'w



helpu i ddylunio a darparu addysg fenter. Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod cynyddu a gwella'r cyfathrebu a'r bartneriaeth rhwng Syniadau Mawr Cymru a SAU yn ddymunol ac efallai ei fod yn faes y mae angen ei gryfhau yn ystod y cylch cyllido nesaf.

Cododd rhai SAU y pwynt mai bach iawn oedd eu defnydd o Syniadau Mawr Cymru oherwydd nad yw myfyrwyr hŷn dros 25 oed yn gymwys i gael cymorth gan y rhaglen. At hynny, nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod myfyrwyr SAU dros 25 oed yn aml ar gam bywyd lle y maent yn fwy tebygol o ddechrau busnes yn fuan ar ôl graddio o gymharu â'u cymheiriaid iau. Mae hyn yn awgrymu efallai na fydd rhai o'r bobl a allai fanteisio ar gymorth ymarferol Syniadau Mawr Cymru yn gallu gwneud hynny oherwydd eu hoedran. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o hyblygrwydd i alluogi pobl ifanc o dan 25 neu'r rhai sy'n 25 oed a throsodd i gael mynediad at wasanaethau Syniadau Mawr Cymru neu Busnes Cymru gan seilio meini prawf addasrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y naill a'r llall yn fwy ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na'u hoedran.

Nododd y rhai y cyfwelwyd â nhw o sefydliadau AB ac AU fod sefydlu perthynas waith dda gydag aelodau unigol o staff Syniadau Mawr Cymru yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i gwmpasu cymorth a chydweithio. Fodd bynnag, nododd lleiafrif hefyd fod diffyg cysondeb o ran staff Syniadau Mawr Cymru yn rhwystro ymgysylltiad o'r math hwn â'r gwasanaeth.

Nid gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yw'r unig sefydliadau y mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth ysgolion a'r rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn gweithio gyda nhw. Mae sefydliadau eraill o fewn ecosystem ehangach cymorth entrepreneuriaeth ieuencid yn cynnwys Hybiau Menter a ariennir gan Busnes Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Menter yr Ifanc, UnLtd, Busnes Cymdeithasol Cymru, yn ogystal â busnesau masnachol gan gynnwys banciau a all ategu gweithgareddau sefydliadol ac ychwanegu gwerth atynt. Mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth o fewn AB-AU a chydlynwyr menter mewn ysgolion yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i frocera gwasanaethau sy'n ategu meysydd ffocws entrepreneuriaid yn eu sefydliadau ac yn cefnogi nodau Galluogi'r Rhaglen Entrepreneuriaeth ieuencid ymhellach.

Mae gwybodaeth am y gwasanaethau ehangach hyn a mynediad atynt yn nodwedd bwysig o'r ecosystem entrepreneuriaeth. Dylai'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth chwarae rhan allweddol wrth frocera'r perthnasoedd hyn ac felly mae angen iddi gael ei chydlynu gan sefydliad a chorff sydd â chyrhaeddiad a dylanwad eang tra'n cael ei ystyried yn frocer gonest ac annibynnol – gweler adran 3.5.

Cymorth allweddol sydd ei angen ar SAB a SAU yn aml yw mynediad at ofod deori neu ofod a chyfleusterau eraill i ddatblygu cynhyrchion a chefnogi busnesau newydd cyn ac ar ôl dechrau busnes. Mae gan rai SAU eu gofod deori eu hunain - mae eraill yn defnyddio gofod a gwasanaethau sydd ar gael o Hybiau Menter a ariennir gan Busnes Cymru neu nid oes ganddynt fynediad i unrhyw ofod neu gyfleusterau o'r natur hwn. Mae ymgysylltiad rhwng sefydliadau AB ac AU â Hybiau Menter Busnes Cymru wedi amrywio rhwng rhanbarthau yn seiliedig ar a ydynt wedi'u lleoli gerllaw ai peidio. Mae gan rai SAU fel Prifysgol Bangor gysylltiadau cryf a sefydledig â'u Hybiau Menter lleol. Ar y cyfan, fodd bynnag, ychydig iawn o ymgysylltiad a gafwyd gyda'r Hybiau Menter. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gymorth ar AB-AU i fanteisio ar fwy o le a gwasanaethau tebyg i'r rhai sydd ar gael o fewn Hybiau Menter Busnes Cymru. Mae angen ymchwil pellach i bennu lefel y galw ac argaeledd a mynediad at y chyfleusterau a'r gwasanaethau hyn ar draws sefydliadau.

Mae'r ystod o randdeiliaid a all gefnogi entrepreneuriaeth ieuentid yng Nghymru yn eang iawn a gall llywio drwy'r dirwedd gymhleth hon o wasanaethau sy'n gysylltiedig â menter fod yn heriol. Fodd bynnag, teimlai'r rhan fwyaf o'r Pencampwyr Entrepreneuriaeth a gyfwelwyd eu bod yn deall yr ecosystem hon ac y gallent nodi lle mae arbenigedd ar gael. Mae gallu sefydliadau i lywio drwy'r eco-system hon hefyd wedi arwain at gysylltiadau cryfach rhwng sefydliadau dysgu a diwydiant gan arwain at rai SAB a SAU yn gallu denu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat i gefnogi gweithgareddau entrepreneuriaeth yn eu sefydliadau.

### Galluogi: Y prif gyflawniadau yn erbyn y targedau:

Rhagorwyd ar y targedau Galluogi ar gyfer sefydliadau AB ac AU ar draws y rhaglen ar gyfer nifer y staff sydd wedi bod yn bencampwyr entrepreneuriaeth (1,969 o staff yn bencampwyr entrepreneuriaeth o gymharu â tharged o 816).

- Roedd swm buddsoddiad y sector preifat a gafodd ei ddenu gan sefydliadau AB ac AU i gefnogi entrepreneuriaeth o fewn eu sefydliad £626,048 yn fwy na'r targed o £593,553 a osodwyd gan y sefydliadau eu hunain.

Cofnododd y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth hefyd nifer o allbynnau sydd wedi cyfrannu at gryfhau'r ecosystem entrepreneuriaid, gan gynnwys:

- Cynnal 44 o Ddigwyddiadau Cyfnewid Gwybodaeth
- 1084 o bartneriaid yn mynychu digwyddiadau a drefnwyd
- Ymgysylltu â 931 o bartneriaid
- Gwneud 202 o gysylltiadau newydd
- Creu 72 o adnoddau
- Rhannu 137 o enghreifftiau o arfer gorau

Tabl 3.1: Cyflawniad sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar y cyd yn erbyn targedau'r rhaglen a osodwyd ar gyfer y 4 elfen

	Targedau 2019-2021	Cyflawniad 2019-2021	Amrywiad
<b>Galluogi: Nifer y staff sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth o fewn eu pwnc neu adran academaidd (Pencampwyr Staff)</b>	816	1,969	+1,153
<b>Galluogi: Buddsoddiad y Sector Preifat i gefnogi Entrepreneuriaeth</b>	593,553	626,048	+32,495
<b>Ymgysylltu: Cyfanswm y myfyrwyr a gyflwynwyd i entrepreneuriaeth</b>	170,842	177,804	+6,962
<b>Grymuso: Cyfanswm y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuriaid (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad)</b>	22,278	35,839	+13,561
<b>Ymbaratoi: Cyfanswm y myfyrwyr sy'n dilysu syniadau busnes neu'n cynnal profion masnachu</b>	3,452	4,757	+1,305



<b>Ymbaratoi: Cyfanswm y myfyrwyr a'r graddedigion sy'n cael cymorth i ddechrau busnes (cymorth yn ystod y broses o ddechrau busnes)</b>	3,039	4,077	+1,038
<b>Ymbaratoi: Cyfanswm y Busnesau a sefydlwyd</b>	1,260	1,124	-136

## Crynodeb o gyflawniadau AU o gymharu ag AB: Cyflawni'r 4 elfen

### Ymgysylltu

O ran cyfanswm y myfyrwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth - llwyddodd 50% o sefydliadau AB i gyrraedd eu targedau neu ragori arnynt ar draws y cyfnod 2019-2021 o gymharu â 25% o SAU. Ar gyfartaledd llwyddodd AB i ymgysylltu â mwy o fyfyrwyr nag AU – 6,955 ar gyfartaledd fesul sefydliad AU dros y cyfnod, o gymharu ag 8,855 ar gyfartaledd ar gyfer AB. O ran maint y boblogaeth myfyrwyr, mae hyn tua 40% o fyfyrwyr AB bob blwyddyn o gymharu â 18% o Fyfirwyr AU.

### Grymuso

Mae SAU yn gryfach o gymharu â cholegau AB o ran y targedau a gyflawnwyd, ond mae colegau AB yn perfformio'n well o ran cyfran y boblogaeth myfyrwyr: mae ffigurau ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuriaidd yn dangos bod 87% o sefydliadau AU wedi cyrraedd eu targedau ar gyfer 2019-2021 o gymharu â 50% o sefydliadau AB. Fodd bynnag, os caiff y rhain eu hystyried o fewn meintiau poblogaeth myfyrwyr cyffredinol, yna mae tuag 8% o fyfyrwyr bob blwyddyn mewn sefydliadau AB wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu eu gweithgarwch entrepreneuriaidd, o gymharu â 4% o fyfyrwyr mewn AU ar gyfer y cyfnod 2019-2021.

### Ymbaratoi

Mae SAU yn perfformio ychydig yn well na SAB ym mhob maes sy'n gysylltiedig ag Ymbaratoi: h.y. o ran i) nifer y busnesau a ddechreuwyd, ii) profion masnachu a dilysu syniadau a iii) cyfanswm y graddedigion sy'n cael cymorth yn ystod y broses o ddechrau busnes. Gwelir y bwlch mwyaf ar gyfer profi a dilysu syniadau, gyda thua 0.5% o fyfyrwyr AB yn dilysu syniadau busnes bob blwyddyn yn ystod y cyfnod 2019 - 2021 o gymharu ag 1% o fyfyrwyr AU

Mae sefydliadau AU yn perfformio'n well na Cholegau AB o ran cyfanswm y busnesau newydd. Ar draws AU ac AB, llwyddodd 37% o sefydliadau AU a 30% o sefydliadau AB i gyrraedd eu targed ar gyfer y cyfnod 2019-2021 neu ragori arno mewn perthynas â chyfanswm y busnesau a ddechreuwyd. Rhwng 2019-2021, sefydlwyd 849 o fusnesau newydd o sefydliadau AU, o gymharu â 263 o AB – cyfanswm o 1,112 o fusnesau newydd – cyfartaledd o 106 o fusnesau newydd fesul SAU a 22 fesul SAB. Os ystyriwn hyn yng nghydestun cyfanswm poblogaeth myfyrwyr y sefydliadau AU sy'n cymryd rhan yn y cynllun o

gymharu ag AB, sefydlodd tua 0.2% o'r boblogaeth AU fusnes newydd bob blwyddyn rhwng 2019-2021 o gymharu â 0.1% o'r boblogaeth AB<sup>13</sup>.

### Galluogi

Roedd nifer y staff a oedd yn hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu pwnc neu adran academaidd (Pencampwyr Staff) yn 62% ar gyfer SAU o gymharu â 75% o golegau AB a ragorodd ar eu targedau ar draws y cyfnod 2019-2021. O ran maint y boblogaeth myfyrwyr, mae hyn tua 227 o fyfyrwyr fesul aelod o staff AB bob blwyddyn (dros 2019-2021) o gymharu â 1204 o fyfyrwyr fesul aelod o staff AU. Ceir hefyd rai enghreifftiau o bencampwyr entrepreneuriaeth academaidd sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol yn gydnabyddiaeth o'u gwaith.<sup>14</sup>

Ymddengys fod y bwlch rhwng AU ac AB yn amlwg iawn wrth edrych ar y maes Galluogi: Buddsoddiad y Sector Preifat i gefnogi Entrepreneuriaeth. Llwyddodd 100% o SAU i gyrraedd eu targed neu ragori arno o gymharu â dim ond 58% o golegau AB dros y cyfnod 2019-2021. Ar gyfartaledd sicrhawyd £60,664 ar draws y cyfnod (2019-2021) ar gyfer AU o gymharu â dim ond £9,189 ar gyfartaledd ar gyfer AB. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod 4 o blith 8 prifysgol yng Nghymru yn cael cyllid gan Santander sy'n cyfrannu at y mwyafrif o'r cyflawniad Buddsoddiad y Sector Preifat a gofnodwyd yn erbyn targedau'r rhaglen.

---

<sup>13</sup> Defnyddir meintiau poblogaeth diweddaraf AU ac AB ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-2021 i roi syniad o gyfran y myfyrwyr ar gyfer AB ac AU ar draws 2019-2021.

<sup>14</sup> Enillwyr NEEA 2019 o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant [Enillwyr 2019 – GWOBRAU ADDYSGWYR MENTER CENEDLAETHOL \(neea.org.uk\)](https://www.menter.org.uk/)

## 3.2 Gwasanaethau unigol a chymorth ariannol a ddarperir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid

Mae'r adrannau a ganlyn yn ystyried gwasanaethau unigol a chymorth ariannol a ddarperir o fewn y 4 elfen yn fwy manwl.

### 3.2.1 Modelau Rôl

Perchnogion busnes ac entrepreneuriaid yw Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru ac maent yn cynnal gweithdai mewn ysgolion, colegau, prifysgolion yn ogystal â rhai gweithgareddau y tu allan i addysg sydd â'r nod o ysbrydoli pobl ifanc i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae gwasanaethau Modelau Rôl yn cefnogi cyflawni canlyniadau sy'n ymwneud ag Ymgysylltu, Grymuso ac Ymbaratoi.

Mae rhwydwaith Cymru gyfan o 482 o Fodelau Rôl wedi'u recriwtio ac wedi cael hyfforddiant drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid i'w galluogi i gynnal eu sesiynau. Hyd yma, mae Modelau Rôl wedi ymgysylltu â thros 315,000 o bobl ifanc ac yn cael eu hystyried yn eang gan lawer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd fel 'trysor pennaaf' y rhaglen. Cânt eu croesawu'n frwd gan ymarferwyr addysg a phobl ifanc sydd, yn gyffredinol, yn eu hystyried yn ysbrydoliaeth, yn bobl y gallant uniaethu â nhw ac yn gredadwy.

#### Ffyrdd o ddefnyddio Modelau Rôl

Mewn ysgolion cynradd defnyddir Modelau Rôl i gefnogi'r Gystadleuaeth Criw Mentrus. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r 5 digwyddiad rhanbarthol a'r rownd derfynol Genedlaethol drwy gynnal gweithdai ysbrydoledig ac ymarferol yn ystod y digwyddiadau a beirniadu'r cynigion. Mae'r ymyriad hwn yn ddigwyddiad a gynhelir unwaith y flwyddyn ar lefel ysgolion Cynradd.

Mewn ysgolion uwchradd defnyddir Modelau Rôl ym mlynnyddoedd 9 ac uwch i gyflwyno pobl ifanc i'r syniad o entrepreneuriaeth yn ogystal â herio rhai o'r stereoteipiau entrepreneuraidd. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod ymgysylltu â Modelau Rôl lleol o fewn dalgylchoedd daearyddol yr ysgolion priodol yn gweithio'n dda ochr yn ochr â gweithgareddau neu ddigwyddiadau ehangach yr ysgol yn ymwneud â menter / entrepreneuriaeth. Dywedwyd bod Modelau Rôl Cymraeg yn chwarae rhan gynyddol yn y broses o gyflawni'r rhaglen a bod adnoddau Cymraeg ar-lein hefyd wedi gwella yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

*'Mae 'milltir sgwâr' y Modelau Rôl yn bwysig iawn o ran meithrin cysylltiadau a dyheadau myfyrwyr, a phwysigrwydd straeon lleol – maen nhw yno i ysbrydoli.'*

*'Mae'r Modelau Rôl yn un o lwyddiannau'r rhaglen (Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid). Maen nhw'n cael rhwydd hynt – ac yn cael eu hannog am eu brwdfrydedd a'u hysbrydoliaeth, mae pobl ifanc eisiau stori a chyd-destun felly mae Modelau Rôl lleol yn help mawr yma.'*

*(Rhanddeiliaid)*

Mewn lleoliadau addysg bellach ac uwch, nododd rhanddeiliaid y gall Modelau Rôl sy'n gysylltiedig â sectorau penodol gynnig mewnwelediadau arbenigol i fyfyrwyr yn gysylltiedig â'u hastudiaethau. Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol wedi cynnig cyfleoedd i alluogi Modelau Rôl â diddordebau neu gefndiroedd busnes penodol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a thrafodir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Yn gyffredinol, dyrennir gweithgareddau Modelau Rôl yn ôl eu cryfderau, gyda rhai yn fwy addas ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion tra bod eraill yn fwy addas ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr hŷn mewn AB neu AU. Yn ogystal â chynnig sesiynau gweithdy ysbrydoledig i grwpiau o bobl ifanc, mae tîm Ymbaratoi y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid hefyd yn defnyddio Modelau Rôl o bryd i'w gilydd i gefnogi cyflwyno gweithdai a digwyddiadau bwtcamps i fusnesau yn ogystal â chefnogi rhywfaint o weithgarwch cymorth busnes un-i-un.

Er bod y Modelau Rôl yn cael eu hystyried yn elfen lwyddiannus iawn o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid, nododd rhai rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy o ddefnydd ohonynt i gefnogi pobl ifanc sy'n astudio mwy o bynciau galwedigaethol mewn AB ac AU i ystyried dechrau eu busnes eu hunain. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod prinder Modelau Rôl o fewn rhai sectorau e.e. TGCh ac amaethyddiaeth. Dywedodd rhai rhanddeiliaid hefyd, er bod Modelau Rôl yn ysbrydoli pobl ifanc yn llwyddiannus, nad oes ganddynt fel arfer y wybodaeth na'r gallu i gynnig unrhyw gymorth dilynol i'r rhai sy'n dangos diddordeb uniongyrchol mewn mynd ar drywydd cyfleoedd entrepreneuriaeth neu hunangyflogaeth.

*'Mae angen hwb ar hyfforddiant Modelau Rôl, yn unol â'r gofynion newydd ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc a'r posibilrwydd o rôl fentora fwy. Mae'n rhaid iddyn nhw addasu i ddarpariaeth ddigidol hefyd. Mae'r agwedd rwydweithio ar Fodelau Rôl yn bwysig iawn, yn ogystal â'u cysylltu â sectorau newydd a sectorau sy'n tyfu.'*  
Rhanddeiliad

Awgryma'r canfyddiadau fod argymhelliad yn yr Adroddiad Gwirio Iechyd Entrepreneuriaeth Ieuencid (2020) y dylid cynnig hyfforddiant i nifer craidd o Fodelau Rôl i gefnogi'r gwasanaeth Ymbaratoi a'r Warant i Bobl Ifanc yn benodol yn ogystal â chefnogi pobl ifanc gyda chyfleoedd cysgodi, profiad gwaith a mentora, yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn cefnogi argymhellion pellach sydd wedi'u cynnwys yn y Gwerthusiad canol tymor o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru (2018) y dylai Llywodraeth Cymru / Syniadau Mawr Cymru sicrhau bod Modelau Rôl yn cyfeirio pobl ifanc sydd â diddordeb mewn bod yn fôs arnyn nhw eu hunain, tuag at y cam nesaf i gyflawni hyn. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith a dangosir i Fodelau Rôl yn awr sut i gyflwyno pobl ifanc i'r cam nesaf ar eu taith entrepreneuriaid fel rhan o'u hyfforddiant Model Rôl ond mae cyfleoedd i ddiweddarau ac atgyfnerthu hyn drwy gyfathrebu â'r rhwydwaith Modelau Rôl.

### **Ymgysylltu â Modelau Rôl**

Gall yr ymgysylltiad â Modelau Rôl unigol amrywio'n sylweddol. Nodwyd yn ystod cyfweiliadau â rhanddeiliaid bod anghysondebau hefyd yn y ffordd y mae rhai sefydliadau a mudiadau yn ymgysylltu â Modelau Rôl ac yn eu trefnu. O ganlyniad, mae rhai Modelau Rôl yn cael eu defnyddio'n aml ond anfyfyr yw'r galw am eraill.

Mae Swyddogion Gweithredol Rhanbarthol a gyflogir drwy Syniadau Mawr Cymru, ar gael i gydlynw a pharatoi ar gyfer ymweliadau Model Rôl mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Eu rôl yw sicrhau bod cyfatebiaeth dda rhwng anghenion y sefydliad a phrofiadau ac arbenigedd y Modelau Rôl. Yn y rhan fwyaf o achosion mae sefydliadau addysg a sefydliadau eraill yn trefnu ymweliadau gan Fodelau Rôl drwy'r llwybr hwn. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd sefydliadau'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Modelau Rôl. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o ddefnydd anghyson o Fodelau Rôl a nodir uchod.

Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod y broses o drefnu Modelau Rôl weithiau'n cynnwys sawl unigolyn, a phob un ohonynt yn cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid e.e. Pencampwyr Entrepreneuriaeth mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn cysylltu â Swyddogion Gweithredol Rhanbarthol sydd wedyn yn cysylltu â'r Modelau Rôl ac ati. Arweiniodd hyn at rai rhanddeiliaid yn cwestiynu a ellid ystyried system fwy effeithlon o drefnu Modelau Rôl, o bosibl drwy system cronfa ddata wedi'i hwyluso tebyg i Gyfnewidfa Addysg Busnes Gyrfa Cymru.<sup>15</sup> Roedd rhanddeiliaid eraill, fodd bynnag, o'r farn na fyddai system ar-lein / ddigidol o'r natur hon yn unig yn cynnig yr un cyfleoedd i baru Modelau Rôl yn effeithiol ag anghenion sefydliadau neu gynulleidfaoedd unigol.

## Taliadau am Fodelau Rôl

Fel arfer telir ffi ar gyfradd safonol i Fodelau Rôl am gynnal eu sesiynau gweithdy. Nid yw'r gyfradd hon wedi newid ers sawl blwyddyn a'i diben yw talu costau teithio Modelau Rôl a chostau sy'n gysylltiedig â threulio amser o'u busnes craidd, yn hytrach na darparu incwm ychwanegol neu amgen. Holwyd rhanddeiliaid ynghylch a oedd angen talu i Fodelau Rôl am eu gwasanaethau, o ystyried bod rhai cynrychiolwyr busnes eraill yn cynnig eu hamser am ddim i ymgysylltu ag ysgolion a cholegau – e.e. mentoriaid Busnes Cymru, a Busnes Cymdeithasol Cymru.

Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn y byddai'n her darbwylo llawer o'r perchnogion busnesau bach sy'n rhan o'r rhwydwaith Modelau Rôl i roi o'u hamser am ddim i gynnal eu sesiynau gweithdy. *“Byddai rhai [Modelau Rôl] yn ei wneud am ddim, ond nid eraill – a byddai hyn yn newid deinameg y rhwydwaith Modelau Rôl” (rhanddeiliaid a gyfwelwyd).*

Nododd y rhan fwyaf o Fodelau Rôl yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod grŵp ffocws yn 2019<sup>16</sup> mai eu prif gymhelliant i ddod yn Fodelau Rôl oedd 'rhoi rhywbeth yn ôl'. Fodd bynnag, nododd yr un ymgynghoriad fod y ffioedd yn hynod bwysig i Fodelau Rôl ac na fyddai'r rhan fwyaf yn gallu ymgysylltu i'r un graddau (neu o gwbl) pe na bai'r ffi ar gael.

Yn ogystal â Modelau Rôl, mae Syniadau Mawr Cymru yn cynnig gwasanaethau Llysgenhadon Syniadau Mawr Cymru (entrepreneuriaid ifanc sydd wedi cael cymorth gan Syniadau Mawr Cymru) a siaradwyr achlysurol (perchnogion busnes sy'n cynnig sgysiau ysbrydoledig i bobl ifanc). Mae Llysgenhadon a Siaradwyr Achlysurol Syniadau Mawr Cymru yn cyflwyno sesiynau tebyg i'r rhai a ddarperir gan Fodelau Rôl ond nid ydynt wedi derbyn hyfforddiant Modelau Rôl ac felly nid ydynt yn cael ffi. Er bod y grŵp ehangach hwn o gynrychiolwyr busnes ysbrydoledig yn ychwanegu gwerth at y rhwydwaith presennol, mae'r gwahanol deitlau a ddefnyddir a'r ffordd y caiff eu costau eu had-dalu, yn achosi dryswch.

## Modelau Rôl a thechnoleg ddigidol

O ganlyniad i'r pandemig COVID 19 yn ystod 2020 - 2021, cynhaliwyd yr holl sesiynau Modelau Rôl yn rhithwir ac, mewn rhai achosion, cafodd y sesiynau hyn eu recordio ymlaen llaw. Roedd cyflwyno sesiynau'n ddigidol fel hyn yn cynnig nifer o fanteision o ran effeithlonrwydd gan gynnwys llai o amser teithio ar gyfer Modelau Rôl a'r gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach o bosibl yn ystod pob sesiwn.

Fodd bynnag, nododd llawer o randdeiliaid ei bod yn anoddach i Fodelau Rôl ryngweithio'n effeithiol â grwpiau o bobl ifanc yn ystod sesiynau ar-lein. Dywedwyd hefyd fod gan grwpiau,

<sup>15</sup> [Cyfnewidfa Addysg Busnes \(llyw.cymru\)](#)

<sup>16</sup> Ymgynghoriad â Modelau Rôl/Adborth Grwpiau Ffocws 2019

yn enwedig grwpiau ysgol iau, lai o allu i ganolbwyntio pan oedd sesiynau'n cael eu cyflwyno'n ddigidol, yn rhannol o ganlyniad i 'syrrfed sgrin'. Amlinellodd y rhanddeiliaid ei bod yn anos cofnodi faint o bobl ifanc sy'n cael eu cyrraedd neu sy'n mynychu sesiynau sy'n cael eu darparu ar-lein a gall casglu adborth gwerthuso gan gyfranogwyr ar-lein hefyd fod yn heriol.

Nododd rhai cynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fod cynnal sesiynau gyda Modelau Rôl yn ddigidol yn aml wedi gweithio'n dda yn eu lleoliadau. Roedd sefydliadau mewn ardaloedd mwy gwledig yn croesawu'r cyfle a ddarparwyd gan y dull hwn o ran cael gafael ar Fodelau Rôl o sectorau penodol a oedd wedi'u lleoli'n gymharol bell oddi wrthynt ac a oedd felly'n llai tebygol o deithio a mynychu'n bersonol. Mae sesiynau Modelau Rôl hefyd wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus drwy dechnoleg ddigidol yn ystod sesiynau Bwtcamp a ddarparwyd drwy Syniadau Mawr Cymru.

Amlinellodd canfyddiadau arolwg 2020 o Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru<sup>17</sup> fod mwyafrif y Modelau Rôl yn hapus ac yn gyfforddus i gynnal sesiynau rhithwir; fodd bynnag, nodwyd hefyd, pan fo'n ddiogel i wneud hynny, y byddai'n well ganddynt gael cysylltiad wyneb yn wyneb.

Nododd y rhanddeiliaid y defnyddiwyd technoleg ddigidol yn llwyddiannus yn ystod y pandemig i gynnal sesiynau hyfforddi ar-lein i Fodelau Rôl newydd. Roedd darparu hyfforddiant yn y modd hwn wedi goresgyn nifer o'r rhwystrau mynediad blaenorol at hyfforddiant a wynebwyd gan Fodelau Rôl posibl gan gynnwys teithio i leoliad hyfforddi a / neu ryddhau eu hunain o'u busnes craidd i fynychu'r sesiynau. Er y gallai darparu sesiynau Modelau Rôl yn ddigidol wella cyrhaeddiad cyffredinol a goresgyn rhai rhwystrau teithio ac amser i'r Modelau Rôl, nid yw'n debygol o gynhyrchu arbedion cost sylweddol gan y bydd angen ffi arnynt o hyd i gyflwyno sesiynau, boed ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Yn gyffredinol, dengys y canfyddiadau fod y profiadau o ddarparu gwasanaethau Model Rôl yn ddigidol yn ystod y pandemig yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dull cyfunol yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys darparu hyfforddiant i Fodelau Rôl yn ddigidol / ar-lein a chyflwyno rhai o'r sesiynau Modelau Rôl, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â sectorau penodol, mewn AB-AU. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd y dylid ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ar gyfer mentora digidol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen rhyngweithio wyneb-yn-wyneb er mwyn cynnal sesiynau Modelau Rôl mewn ysgolion ac i grwpiau oedran iau y tu allan i fyd addysg.

### **Effaith a dylanwad Modelau Rôl**

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod Modelau Rôl yn tanio diddordeb a brwdfrydedd pobl ifanc a all arwain at ddechrau eu taith tuag at fod yn fos arnyn nhw eu hunain. Mewn ysgolion, mae cyflwyniadau gan Fodelau Rôl yn cyflwyno dysgwyr i'r syniad o fenter a hunangyflogaeth yn gyffredinol - yn aml am y tro cyntaf. Wrth wneud hynny, maent yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni'n lleol ac yn herio canfyddiadau pobl ifanc o entrepreneur a'r hyn y mae'n ei wneud. Ar lefel addysg bellach ac addysg uwch gall cyflwyniadau gan Fodelau Rôl danio brwdfrydedd tebyg tuag at entrepreneuriaeth ac yn aml canolbwyntio ar fathau penodol o fusnesau sy'n cysylltu â'r meysydd pwnc y mae myfyrwyr yn eu hastudio.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi'r rhai a welir mewn astudiaethau annibynnol eraill sy'n amlinellu pwysigrwydd modelau rôl dylanwadol ac, yn anad dim, rhai y gellir uniaethu â nhw

---

<sup>17</sup> Arolwg o Fodelau Rôl / Llysgenhadon Ifanc (Syniadau Mawr Cymru Rhagfyr 2020) Maint sampl 96 o Fodelau Rôl



o ran cefnogi pobl ifanc ar eu taith entrepreneuriaidd. Er enghraifft, canfu astudiaeth a gynhaliwyd gan Innovate UK a'r Ffederasiwn Busnesau Bach<sup>18</sup> fod 75% o entrepreneuriaid y DU wedi tyfu i fyny gyda model rôl deinamig. Canfu'r astudiaeth hon hefyd fod ychydig yn llai na thraean (29%) o berchnogion busnesau bach wedi dweud bod peidio â chael modelau rôl y gellir uniaethu â nhw yn golygu bod eu taith entrepreneuriaidd wedi bod yn arafach. Mae'r astudiaeth hefyd yn amlinellu pwysigrwydd modelau rôl benywaidd a modelau rôl o gefndiroedd ethnig amrywiol i ysbrydoli mwy o fenywod a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i ddechrau busnes.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n arwain at y casgliad bod Modelau Rôl wedi chwarae rhan bwysig a buddiol yn y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid a'u bod yn elfen hanfodol a all ddylanwadu'n gadarnhaol ar bobl ifanc o ran ystyried hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfya hyfyw. O'r herwydd, dylai Modelau Rôl barhau i fod yn rhan ganolog o unrhyw raglen yn y dyfodol sydd â'r nod o gefnogi entrepreneuriaeth ieuentid yng Nghymru.

### **3.2.2 Dyfarniadau Grant i Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

Drwy gyllid grant, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad hirdymor i ddatblygu capasiti entrepreneuriaidd y sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae sefydliadau'n cael eu hariannu i'w helpu i gymryd yr arweiniad ac ysgogi a chymryd perchnogaeth o'u hagenda entrepreneuriaeth, gan ddefnyddio'r ysgogiad grant ariannol i feithrin a chyflymu arferion entrepreneuriaeth. Mae'r rhaglen yn awyddus i gydnabod y rôl y mae sefydliadau'n ei chwarae wrth gefnogi'r ecosystem entrepreneuriaidd a helpu i weithredu ac ymgorffori strategaethau sefydliadol ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth a chwilio am gyfleoedd i brif ffrydio'r gweithgarwch hwn yn eu sefydliadau yn y tymor hwy.

Datblygwyd rhaglen waith gyfredol 2019-2022 ar sail yr Adolygiad Canol Tymor o Gyllid Grant Entrepreneuriaeth Ieuentid i sefydliadau AB ac AU (Rhaglen 2015-2018) a gynhaliwyd gan Redbox Research ym mis Gorffennaf 2018. Defnyddiwyd model cyllido yn seiliedig ar niferoedd y myfyrwyr i ddyrannu'r cyllid yn erbyn cynllun strategol a set o allbynnau lle mae'r sefydliadau'n gosod eu targedau blynyddol eu hunain.

Nododd yr adolygiad canol tymor fod yr offeryn cyllid grant yn elfen gyflawni bwysig o ymrwymiad polisi hirdymor gan Lywodraeth Cymru i annog a chefnogi entrepreneuriaeth ieuentid. Tynnodd sylw hefyd at y rôl allweddol a chwaraeir gan y sector AB ac AU wrth ddarparu profiadau a chyfleoedd entrepreneuriaidd. Nodwyd sefydliadau academiaidd fel rhan annatod o'r ecosystem entrepreneuriaidd yng Nghymru, ac mae Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn gatalydd allweddol ar gyfer ysgogi entrepreneuriaeth yn y byd academiaidd. Ystyriwyd bod y grant yn cyflawni canlyniadau, ond canfu'r gwerthusiad hefyd fod meysydd i'w gwella.

Yn benodol, argymhellodd yr adolygiad y dylai sefydliadau AB ac AU wneud ymrwymiad i entrepreneuriaeth a darparu llwybrau dilyniant cliriach o ran taith sefydlu myfyrwyr a'r cymorth sydd ar gael. Nododd hefyd fod cyfleoedd allweddol i'r rhaglen ymateb a chyfrannu at newidiadau yn y dirwedd polisi economaidd – yn benodol o ran sbarduno twf economaidd rhanbarthol a chefnogi rôl AB ac AU mewn datblygiad economaidd rhanbarthol. Mae'r argymhellion hyn wedi arwain proses barhaus Llywodraeth Cymru o reoli'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid a hefyd wedi cefnogi cynnydd rhai sefydliadau tuag at ymgorffori entrepreneuriaeth.

---

<sup>18</sup> [UK Business News 2021](#)

Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach ar sut y mae pob sector wedi defnyddio'r cyllid dros y pedair blynedd diwethaf ac yn edrych ar sut y gellid cefnogi sefydliadau yn y dyfodol.

## Addysg Bellach

### Sut y defnyddir y cyllid gan Sefydliadau Addysg Bellach

Ym mhob coleg AB a gyfwelwyd, defnyddiwyd grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid i ariannu rôl Pencampwr Entrepreneuriaeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl a/neu Gydlynnydd Entrepreneuriaeth. Roedd y rolau hyn yn amrywio rhwng rhan-amser a llawn amser - mewn rhai achosion, roedd y grant Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn caniatáu i Pencampwyr Entrepreneuriaeth rhan-amser gynyddu eu horiau gwaith, gan ganiatáu i fwy o weithgarwch sy'n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth gael ei gynnal yn y coleg. Roedd dibyniaeth ar grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn amrywio. Nododd rhai Pencampwyr na fyddai unrhyw weithgarwch yn gysylltiedig ag entrepreneuriaeth yn cael ei gynnal heb y cyllid.

Fodd bynnag, nododd sawl Pencampwr arall ei bod yn debygol y byddai'r rôl yn parhau hyd yn oed yn absenoldeb y grant ond y byddai'r effaith o bosibl yn lleihau. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod rôl y Pencampwr/Cydlynnydd Entrepreneuriaeth yn hanfodol ar gyfer cydlynu cymorth i entrepreneuriaeth o fewn sefydliadau AB, ac felly, o ystyried y ddibyniaeth ar y grant i ariannu'r rolau hyn, ystyriwyd bod y grant yr un mor hanfodol yn y sefydliadau hyn.

*'Mae rôl y Pencampwr Entrepreneuriaeth yn gysylltydd / sianel i helpu pobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y dirwedd entrepreneuriaeth gymhleth -- i'w gwneud yn haws i fyfyrwyr (gael mynediad i weithgareddau entrepreneuriaeth).'* (Rhanddeiliad)

Y tu hwnt i rolau cyllido staff, defnyddiwyd grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid ar gyfer cyfres o fentrau cyd-gysylltiedig rhwng sefydliadau yn ogystal â gweithgareddau o fewn colegau AB. Dyma rai enghreifftiau:

- Academi fenter (dysgu sgiliau penodol sydd eu hangen i sefydlu busnes) - **Grymuso**
- Digwyddiadau / gweithdai dechrau busnes (i fyfyrwyr a fynegodd ddi-ddordeb penodol mewn entrepreneuriaeth) - **Ymbaratoi**
- Clybiau a chymdeithasau (e.e., cyfarfod grŵp 'cymuned fenter' yn ystod amser cinio) - **Ymgysylltu**
- Comisiynu asiantaethau allanol i gynnal digwyddiadau a chynnal digwyddiadau yn y coleg - **Ymgysylltu ac Ymbaratoi**
- Cydweithio â rhanddeiliaid eraill (e.e., Canolfan Cydweithredol Cymru) – **Ymbaratoi**
- Hwyluso cystadlaethau menter (o fewn a rhwng colegau) – **Grymuso**
- Mynediad at Fodelau Rôl (gan gynnwys y rhai a gafwyd gan Syniadau Mawr Cymru) – **Digwyddiadau Ymgysylltu, Grymuso ac Ymbaratoi**
- Cynnig grantiau bach i fyfyrwyr i'w helpu i sefydlu busnes - **Ymbaratoi**
- Cynnig DPP i athrawon er mwyn eu galluogi i ddarparu addysg entrepreneuriaeth. - **Grymuso**

### Effaith Covid mewn Sefydliadau Addysg Bellach



Prif fwiad y grant Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid a gynigiwyd i AB yn ogystal ag AU oedd cefnogi gweithgareddau Ymbaratoi (cefnogi busnesau newydd) ar draws y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, adroddwyd yn eang gan y Pencampwyr Entrepreneuriaeth bod llawer o fyfyrwyr, o ganlyniad i COVID, wedi colli cryn dipyn o'u hyder i ddechrau busnes yn ogystal â'r rhwydweithiau menter yr oeddent wedi'u sefydlu. Dywedodd y rhan fwyaf o sefydliadau AB felly eu bod wedi rhoi'r gorau i'w darpariaeth Ymbaratoi er mwyn dychwelyd i ddarpariaeth Ymgysylltu a Galluogi gyda'r nod o godi dyheadau a hyder er mwyn adfer yr hyder a gollwyd gan lawer o fyfyrwyr oherwydd y pandemig.

Yn ystod y pandemig, darparwyd llawer o'r gweithgareddau cymorth ymgysylltu'n ymwneud â menter a gefnogir gan y grant, ar-lein. Roedd sefydliadau AB yn amrywio o ran pa mor gyflym yr oeddent yn datblygu darpariaeth Ymgysylltu ar-lein. Nododd llawer o Bencampwyr Entrepreneuriaeth fanteision darpariaeth ar-lein: er enghraifft, roedd ymgysylltu a darparu cymorth ar gael yn haws i fwy o fyfyrwyr, a gallai staff mewn sefydliadau AB mwy o faint ymgysylltu â nifer fwy o fyfyrwyr.

Roedd pawb a gyfwelwyd yn cydnabod y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ar-lein. Nododd llond llaw o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi gwario llai o'u cyllideb menter gyffredinol oherwydd cyfyngiadau COVID a'r angen i ddarparu gwasanaethau ar-lein. Cyfeiriodd pawb at bwysigrwydd ymgysylltu â myfyrwyr wyneb yn wyneb yn benodol yng ngoleuni anawsterau gydag ymgysylltu ar-lein oherwydd 'syrffed Zoom' a lefelau llesiant is ymhlith myfyrwyr yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd llawer hefyd o'r farn bod darpariaeth hybrid, gan gyfuno darpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn ddull cyflawni posibl y gellid parhau ag ef y tu hwnt i'r pandemig.

Manteisiodd nifer fach o sefydliadau AB ar yr amgylchiadau andwyol yn sgil cyfnodau clo COVID-19 i wella eu darpariaeth. Er enghraifft, aeth un Pencampwr Entrepreneuriaeth ati i greu blogiau fideo, podlediadau, a straeon Instagram i gyd yn ymwneud â hyrwyddo addysg yn ymwneud ag entrepreneuriaeth yn y coleg. Disgrifiwyd hyn fel defnydd gwahanol o'r cyllid o gymharu â chyn y pandemig ac fe'i crëwyd yn benodol oherwydd bod myfyrwyr yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â deunydd y gallent gael mynediad ato yn eu hamser eu hunain.

### **Ymgorffori entrepreneuriaeth mewn Addysg Bellach**

Un o nodau allweddol y grant Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid fu cefnogi sefydliadau AB ac AU i ymgorffori gweithgareddau a diwylliant menter ac entrepreneuriaeth o fewn eu sefydliadau. Roedd y graddau y mae entrepreneuriaeth wedi'i hymgorffori yn y coleg yn amrywio rhwng sefydliadau AB. Soniodd y rhai a gyfwelwyd am anawsterau wrth ymgysylltu ag adrannau/cyfadrannau penodol, megis y celfyddydau neu STEM, er bod hyn yn amrywio rhwng sefydliadau. Dywedodd sawl un a gyfwelwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â chyfadrannau'r dyniaethau oherwydd bod natur y ddisgyblaeth yn fwy seiliedig ar arholiadau a'r canfyddiad o lwybrau llai amlwg i hunangyflogaeth.

Mewn rhai colegau, roedd Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn ymgysylltu ag adrannau lluosog yn ogystal ag arwain gweithgareddau ar draws y coleg. Dywedwyd bod hyn yn helpu i wella ymwybyddiaeth o addysg fenter a'i c chydlynu'n well ar lefel strategol ac yn amlygu lwybrau hunangyflogaeth i fyfyrwyr. Dywedodd rhai Pencampwyr Entrepreneuriaeth fod cyfleoedd pellach i ymgorffori entrepreneuriaeth o fewn cyrsiau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â sectorau megis adeiladu ac iechyd a harddwch hefyd yn bodoli yn eu priod sefydliadau. Nododd sawl un fod eu gallu i hyrwyddo a chystadlu mewn cystadlaethau sgiliau sy'n gysylltiedig â menter yn un o ganlyniadau cadarnhaol eraill y grant.

Mae'r rhwystrau i ymgorffori entrepreneuriaeth yn cynnwys amser ac adnoddau cyfyngedig, lefelau amrywiol o ddiddordeb mewn menter rhwng adrannau colegau, a lefelau hyder ymhlith athrawon ynghylch addysg fenter. Fodd bynnag, mae'r heriau hyn yn amrywio yn ôl maint y sefydliad – er enghraifft, ni ddywedodd sefydliadau AB llai o faint, sy'n tueddu i fod yn fwy cydlynol o ran eu dull o ymdrin ag addysg fenter, fod sicrhau cefnogaeth ar draws cyfadrannau yn broblem. At ei gilydd, mae ymgorffori addysg entrepreneuriaeth mewn sefydliadau AB yn ei ddyddiau cynnar o gymharu â'r sector SAU lle y ceir ymrwymiad ehangach yn gyffredinol.

## **Addysg Uwch**

### **Sut y defnyddir y cyllid gan Sefydliadau Addysg Uwch**

Mewn rhai sefydliadau AU, defnyddiwyd grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid i ariannu rolau Pencampwyr Entrepreneuriaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Fodd bynnag, roedd sefydliadau AU yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r cyllid grant i gyflogi staff menter ychwanegol y tu hwnt i rôl Pencampwr Menter a oedd eisoes yn bodoli a ariannwyd gan y SAU, megis Cydlynnydd Menter neu gynorthwydd cymorth menter. Disgrifiodd rhai o'r SAU a gyfwelwyd fod y cyllid yn eu galluogi i fod yn fwy arloesol a chymryd mwy o risgiau gyda'u darpariaeth menter ac i allu llunio cynlluniau tymor hwy ar gyfer darpariaeth addysg fenter (e.e., cynllunio tymor hwy ar gyfer addysg fenter o fewn y cwricwla).

Roedd gweithgareddau eraill a gefnogwyd gan grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn debyg i rai sefydliadau AB ac maent yn cynnwys: bwtcamps; siaradwyr gwadd ac arbenigwyr diwydiant; cydariannu wythnos Cychwyn Busnes yr Haf; DPP ar gyfer staff (er enghraifft drwy EEUK); a darparu cymorth un-i-un i fyfyrwyr. Roedd y rhai a gyfwelwyd mewn SAU yn fwy tebygol o sôn am ddatblygu sgiliau a chymorth un-i-un na digwyddiadau siaradwr neu fodolau rôl o gymharu â'u cymheiriaid mewn AB. Mae hyn yn cysylltu â'r syniad o fyfyrwyr yn symud ymlaen drwy'r 4 elfen, lle ceir mwy o ffocws ar Ymbaratoi a Grymuso nag Ymgysylltu wrth i fyfyrwyr symud ymlaen ar eu taith entrepreneuriaeth.

Fel y nodwyd yn adran 3.1 rhagorwyd ar dargedau 'Grymuso' AB ac AU drwy gydol y rhaglen o 2016-2021 o ran myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu gallu entrepreneuraidd (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad).

Roedd SAU mwy o faint yn fwy tebygol o adrodd am wahanol ffynonellau cyllid, megis cyllid o Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru CCAUC, neu noddwyr y sector preifat i gefnogi gweithgareddau entrepreneuriaeth i raddau mwy na'r cymorth a gafwyd drwy'r grant. Serch hynny, cydnabuwyd bod gwahanol ffrydiau incwm yn cyflawni gwahanol dargedau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn wahanol i'r targedau y mae grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn ceisio eu cyflawni. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd SAU llai yn fwy tebygol na rhai mwy o faint o nodi y byddent yn cael trafferth darparu addysg fenter yn absenoldeb grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid.

Nododd lleiafrif o SAU ddryswch ynghylch gofynion adrodd o ran yr hyn y mae grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid wedi'u galluogi i'w gyflawni. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos SAU sy'n derbyn ffynonellau cyllid lluosog lle y gall mentrau addysg fenter orgyffwrdd neu gysylltu'n agos â'i gilydd. Roedd hyn hefyd yn broblem i SAU a ddywedodd eu bod eisoes yn cyflawni'r 4 elfen cyn gweithredu'r gofynion adrodd am grantiau.

Yn gyffredinol, ar gyfer SAU roedd grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn rhan werthfawr ac angenrheidiol o o gymorth a buddsoddiad ehangach i hybu addysg fenter yn

eu priod sefydliadau. Mae hyn yn dra gwahanol i sefydliadau AB, y mae'r grant Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn unig ffynhonnell sylweddol o fuddsoddiad iddynt ar gyfer cefnogi addysg fenter yn eu sefydliadau.

*'Mae SAU yn gwerthfawrogi'r cymorth yn gyffredinol a'r cyfleoedd y mae'n eu creu. Mae wedi hwyluso newid mewn adnoddau mewn meysydd cefnogi menter. Mae hefyd wedi arwain at fwy o gefnogaeth i rwydweithiau a rhannu arferion da. Mae'r cyllid yn caniatáu i Bencampwyr Entrepreneuriaeth fod yn ddiogel a rhoi lle mwy amlwg i fenter mewn SAU.'* [Rhanddeiliad]

## **Effaith COVID mewn Addysg Uwch**

Yn yr un modd â sefydliadau AB, dywedodd SAU eu bod wedi gweld cynnydd cychwynnol mewn ymgysylltiad wrth i fwy o fyfyrwyr gael mynediad at ddarpariaeth ar-lein, cyn gweld gostyngiad mewn ymgysylltiad wrth i fyfyrwyr syrffedu ar ddarpariaeth dysgu ar-lein. Yng ngoleuni'r ffaith bod llai o ymgysylltu â gweithdai allgyrsiol, dewisodd llawer o SAU ganolbwyntio ar ddigwyddiadau rhithwir Cymru gyfan a'u hyrwyddo i fyfyrwyr, yn ogystal â digwyddiadau gan Syniadau Mawr Cymru a Hybiau Menter. Teimlwyd bod y digwyddiadau hyn yn ychwanegu gwerth drwy gynnig safbwyntiau ehangach i fyfyrwyr y tu hwnt i'w sefydliad unigol.

Nododd y rhai a gyfwelwyd fod ganddynt fwy o arian i'w wario oherwydd arbedion ar wariant yn ystod COVID. Gyda'r cyllidebau a oedd yn weddill, penderfynodd tri SAU gydweithio er mwyn creu adnodd a llwyfan ar-lein i fyfyrwyr ymgysylltu â darpariaeth a gweithgareddau addysg fenter pan oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn enghraifft o'r math o bartneriaethau a gefnogir drwy'r grant y gellid eu hannog yn y dyfodol i gefnogi cydweithio pellach, dulliau rhanbarthol a chynnig cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd o fewn y rhaglen.

## **Ymgorffori entrepreneuriaeth mewn Addysg Uwch**

Fel yr amlinellir yn nhabl 3.1 isod, mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi cyrraedd y targedau o ran staff AB ac AU yn hyrwyddo entrepreneuriaeth neu wedi rhagori arnynt. Yn y rhan fwyaf o SAU, dywedwyd bod ymgorffori entrepreneuriaeth yn dibynnu ar aelodau penodol o staff a'u harbenigedd a'u diddordeb mewn menter yn hytrach na chael ei ymgorffori o fewn strategaeth SAU. Serch hynny, roedd gwahaniaethau yn y ffordd y mae dull gweithredu SAU yn ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu hadrannau, yn y cwricwlwm addysgu ac mewn gweithgareddau cymorth ychwanegol. Mae sawl sefydliad yn sicrhau bod adrannau penodol yn canolbwyntio ar fenter, ond roedd sefydliad arall wedi ymgorffori menter mewn modiwl cyffredinol y mae pob myfyriwr yn y brifysgol yn ei astudio.

Mae un SAU wedi datblygu sefydliad cyfan o hyrwyddo ac ymgorffori entrepreneuriaeth. Mae elfennau strategol allweddol yn cynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer symudedd myfyrwyr drwy 'leoliadau entrepreneuriaeth', creu gofod dynodedig a diogel ar gyfer arloesi a busnesau newydd, annog Colegau ac Ysgolion i ddarparu gofod i fyfyrwyr arbrofi, cydweithio a phrofi syniadau, a chydabod a gwobrwyo dysgu a chyflawniadau entrepreneuriaid drwy achrediadau, gwobrau ac ardystiadau. Soniodd un SAU am yr heriau i ymgorffori addysg fenter ar draws y sefydliad cyfan ac felly creodd rôl newydd, sef Swyddog Datblygu Cwricwlwm Menter. Ariannwyd y rôl hon gan CCAUC ac mae'n enghraifft o ffynonellau cyllido amgen sy'n ategu darpariaeth y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at y gyfatebiaeth rhwng cyllid Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a rhaglen Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru CCAUC, sy'n cefnogi mentrau deillio, busnesau newydd a DPP sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymchwil SAU unigol. Nodwyd bod uchelgeisiau tebyg i gefnogi'r ecosystem fenter drwy fuddsoddi a masnacheiddio a thwf economaidd yn seiliedig ar leoedd drwy Brifysgolion Cymru a Rhwydwaith Arloesi Cymru. Mae hyn yn dangos yr ecosystem entrepreneuriaidd sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru a thrafodir hyn ymhellach yn adran 3.2.5.

### **Y gwerth a ychwanegir gan Grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid**

Holwyd Pencampwyr a Chydlynwyr Entrepreneuriaeth AB am werth grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Gwnaeth llawer sylwadau ar effaith rhyngweithio wyneb-yn-wyneb penodol o ran adfer yr hyder a gollwyd gan fyfyrwyr yn ystod cyfnodau clo COVID-19. Nododd eraill fod ei werth o ran rhoi cyfle i Bencampwr Entrepreneuriaeth i ymgysylltu'n barhaus â myfyrwyr fel sy'n ofynnol (e.e., drwy sesiynau un-i-un neu gyfres o weithdai). Yn olaf, crybwyllwyd Modelau Rôl yn aml fel adnodd gwerthfawr ac ysbrydoledig i ddysgwyr. Mae grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn galluogi Pencampwyr Entrepreneuriaeth i gael mynediad da at wasanaethau allanol a'u defnyddio (e.e. Modelau Rôl gan Syniadau Mawr Cymru), sy'n ychwanegu gwerth at effaith gyffredinol y rhaglen.

*“Fel Pencampwr Entrepreneuriaeth, mae mynd i mewn i ystafelloedd dosbarth i gyflwyno sesiynau i ddysgwyr yn cael cryn effaith oherwydd mae'n cynyddu'n aruthrol y siawns y bydd dysgwyr wedyn yn dod i'm gweld am sesiwn un-i-un”, Pencampwr Entrepreneuriaeth, coleg AB*

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn eu galluogi i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau eraill na fyddent yn gallu eu cynnal fel arall. Dywedodd y rhan fwyaf hefyd nad oeddent yn cael cyllid sylweddol arall i gefnogi addysg entrepreneuriaidd yn eu sefydliad. Fodd bynnag, cafodd rhai sefydliadau gymorth o ffynonellau eraill. Er eu bod yn llai cyffredin, roedd y ffynonellau hyn yn cynnwys: arian cyfatebol gan y sefydliad AB; Ymddiriedolaeth y Tywysog; Canolfan Cydweithredol Cymru; busnesau lleol ac entrepreneuriaid. Mae hyn yn cefnogi ymhellach ddull cynaliadwy a chynhwysfawr rhai sefydliadau.

*“Rydym wedi gwneud pethau na fydden ni wedi gallu eu gwneud fel arall, fel helpu i sefydlu busnes mewnol... rydw i wedi gallu ymestyn cyrhaeddiad i fyfyrwyr ac ymgymryd â phrosiectau mwy oherwydd y cyllid”, Pencampwr Entrepreneuriaeth, coleg AB*

Mae'r canfyddiadau hyn o gyfweiliadau â Phencampwyr Entrepreneuriaeth yn cysylltu â chanfyddiadau'r adolygiad dwy flynedd o Grantiau AB-AU Entrepreneuriaeth leuenctid (2019-2021). Mae'r adroddiad hwn yn amlgu bod colegau AB yn allweddol i gefnogi myfyrwyr i ymgymryd â galwedigaethau galwedigaethol (y mae cysylltiad agos rhyngddynt a hunangyflogaeth yn aml) ac felly maent yn ddarparwyr hanfodol gweithgareddau ymgysylltu a grymuso drwy'r grant.

### **3.3 Ysgolion**

Mae ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi'u targedu drwy'r elfen Ymgysylltu, sy'n cynnal hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth mewn ysgolion (a sefydliadau AB ac

AU) drwy rwydwaith o fodolau rôl a gweithgareddau eraill. Mae ysgolion cynradd wedi'u targedu drwy'r elfen Grymuso, drwy'r gystadleuaeth Criw Mentrus.

Dengys yr ymchwil y gall ymgysylltu â gweithgareddau menter yn ifanc fod yn fuddiol o ran codi dyheadau dysgwyr a datblygu sgiliau. Amlygodd gwerthusiad o'r Criw Mentrus effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr gan gynnwys sgiliau meddalach fel hunanhyder, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno yn ogystal â gwydnwch a brwdfrydedd cynyddol tuag at ddysgu. Nododd y gwerthusiad fod cymryd rhan yn y Criw Mentrus hefyd yn rhoi cyfleoedd i ysgolion gysylltu menter â'r cwricwlwm a chefnogi llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn ogystal ag ychwanegu gwerth at weithgareddau menter presennol ac annog ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Serch hynny, amlygodd y gwerthusiad hefyd y lefelau isel o ymgysylltiad gan ysgolion ledled Cymru yn y gystadleuaeth ac mae hyn yn adlewyrchu her ehangach a nodwyd gan astudiaethau eraill a gwaith monitro blynyddol y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion. Amlygodd gwerthusiad y Criw Mentrus ddiffyg ymgysylltiad gan ysgolion â'r gystadleuaeth ar draws rhai rhannau o Gymru e.e. ardaloedd gwledig a materion megis cynaliadwyedd ymgysylltiad gan staff a diffyg trafndiaeth fel rhwystrau eraill. Nododd gwerthusiad canol tymor 2018 o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid lefelau is o ymwybyddiaeth o Syniadau Mawr Cymru mewn ysgolion a gwnaeth argymhellion i wella hyn.

O ran targedau Ymgysylltu ysgolion cyn ac ôl-16 ar gyfer gweithdai a gweithgareddau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, llwyddwyd i gyrraedd y targedau ar gyfer nifer y gweithdai Ysbrydoli/Archwilio a gweithdai wedi'u teilwra gydag ysgolion drwy gydol y rhaglen ac eithrio yn 2020-21 a 2021-22 lle yr effeithiodd Covid ar y ffigurau. Nod y rhaglen oedd sicrhau bod 100% o ysgolion canol ac uwchradd Cymru yn ymgysylltu â gweithdai a gweithgareddau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a chyrhaeddwyd y targed hwn, gyda lefelau amrywiol o ymgysylltu ar draws pob awdurdod lleol ac ysgolion unigol ym mhob awdurdod yn ystod y rhaglen.

Mae rhai o'r ysgolion mwyaf gweithgar (canol ac uwchradd) i'w cael ym Mhen-y-bont ar Ogwr - ar gyfartaledd cymerodd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ran mewn gweithdai a gweithgareddau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid 58 o weithiau yn ystod y rhaglen, o gymharu â Phowys lle y cymerodd ysgolion ran 15 o weithiau. Ymhlith y rhesymau a nodwyd gan randdeiliaid am yr amrywiad rhwng ysgolion mae'r ffaith bod rhai ysgolion yn blaenoriaethu gweithgareddau menter a gallai eraill fod wedi defnyddio 'amser rhydd' y cwricwlwm ar gyfer gweithgareddau eraill fel llesiant. Roedd p'un a oedd ysgolion yn cymryd rhan ym Magloriaeth Cymru ai peidio hefyd yn dylanwadu ar y graddau yr oeddent yn ymgysylltu â gweithgareddau menter.

Er y cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn yn arolwg Omnibws Plant 2021 ynghylch eu hagweddau tuag at entrepreneuriaeth a dechrau eu busnesau eu hunain, adroddwyd hefyd am lefelau isel o ymwybyddiaeth o Syniadau Mawr Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am ymgysylltu pellach ar lefel ysgolion i gefnogi'r niferoedd sy'n ymgymryd â gweithgareddau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Nododd rhanddeiliaid hefyd y diffyg ymgysylltu cyson ag ysgolion ledled Cymru, a amlygir yn y data ymgysylltu ag ysgolion uchod. Roeddent o'r farn bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer fersiynau o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn y dyfodol, gan gynnwys mwy o ffocws ar gynaliadwyedd a chysylltedd teithiau dysgwyr drwy'r ysgol gynradd i'r uwchradd ac ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch.

*'Mae bylchau enfawr hyd at flwyddyn 10, rhywbeth na all y Criw Mentrus fynd i'r afael ag ef ar ei ben ei hun. Gall dysgwyr ddechrau ymddieithrio'n gynharach ym mlynnyddoedd 7 ac 8*



*felly mae angen i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid gael mwy o bresenoldeb yma, drwy'r modelau rôl ac eraill, er enghraifft seminarau wedi'u targedu ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9.'* Rhanddeiliad

Cynhyrchodd y gwerthusiadau a nodir uchod gyfres o argymhellion gan gynnwys mwy o ffocws ar bartneriaethau lleol, y defnydd o dechnolegau newydd, dysgu proffesiynol i athrawon, llwyfannau i rannu arferion da, ac adnoddau i sicrhau bod ymgysylltiad teg ar draws ysgolion ac nad yw dysgwyr o dan anfantais. Adroddwyd ar amcanion pellach mewn adroddiad gwirio iechyd gan Lywodraeth Cymru, sydd heb ei gyhoeddi, ar Amcan 7 Syniadau Mawr Cymru yn cynnwys dull ag iddo fwy o ffocws, codi ymwybyddiaeth athrawon o fusnes, cyflwyno i grwpiau llai o ddysgwyr ac ymyriadau ag iddynt fwy o ffocws gyda myfyrwyr sydd wedi dangos diddordeb mewn busnes (e.e. myfyrwyr astudiaethau busnes).

Mae'r rhanddeiliaid yn unfrydol bod y cwricwlwm newydd yn cynnig cyfleoedd i wella ymhellach ddarpariaeth y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid mewn ysgolion yn ogystal ag integreiddio menter yn y system addysg ehangach. Gwelwyd y cwricwlwm newydd, yn enwedig addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, fel cyfle i ddatblygu dull cyson a chynnig cydlynol a all gefnogi sgiliau ymarferwyr a chreadigrwydd a chyflogadwyedd dysgwyr. I rai rhanddeiliaid, gall hyn fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n ymwneud â'r lefelau cymorth presennol a natur gydgyfylltiedig y daith entrepreneuriaeth drwy'r ysgol gynradd ac uwchradd tuag at AB ac AU a busnesau newydd.

*'Mae angen i addysgu a dysgu arloesol fod yn rhan o'r dull gweithredu yn y dyfodol yn ogystal â dull mwy cyson o gefnogi menter ym mlynyddoedd 7 ac 8. Mae angen mwy o arweiniad ar ysgolion i ymgorffori menter ar draws y cwricwlwm a'i gysylltu â datblygu sgiliau a gwybodaeth.'* Rhanddeiliad

Nododd rhanddeiliaid hefyd fod bylchau mewn darpariaeth menter ac ymgysylltu wedi digwydd oherwydd blaenoriaethau eraill. Mae sefydliadau fel Gyrfa Cymru wedi tueddu i ganolbwyntio ar gyflogaeth yn hytrach nag entrepreneuriaeth ac yn gyffredinol maent yn cefnogi ymgysylltiad ysgolion â chwmnïau mwy nid mentrau lleol bach na'r rhai sy'n hunangyflogedig. Gyda ffocws polisi cryfach ar fenter, nododd y rhanddeiliaid y bydd Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill yn hanfodol i gefnogi hyn ymhellach mewn ysgolion, yn enwedig mewn meysydd fel cydlynol a hyrwyddo adnoddau addysgu menter. Mae hyn yn cysylltu â chanfyddiadau adolygiad llenyddiaeth MMCCCh ynghylch pwysigrwydd entrepreneuriaeth fel elfen o addysg gyrfaoedd.

Mae dogfen bolisi gyfredol Gyrfa Cymru, Dyfodol Disglair (2021-26)<sup>19</sup>, yn amlinellu ystod o nodau sy'n gysylltiedig ag addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a all gefnogi'r uchelgeisiau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaeth dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol ym myd addysg i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith effeithiol; dylunio a chyflwyno gwobr newydd ar gyfer addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith am ragoriaeth yn y cwricwlwm a chefnogi'n rhagweithiol y broses o roi canllawiau statudol yn y maes hwn ar waith.

Mae'r weledigaeth hefyd yn amlinellu'r camau cymorth gyrfaoedd o gyflwyniad i yrfaedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion cynradd, ehangu gorwelion a chodi dyheadau ym mlynyddoedd 7-9, gwneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol ym mlynyddoedd 10-11 ac yna cefnogi pontio effeithiol i ddysgu a byd gwaith. Mae camau hyn yn cynnig cyfle i

<sup>19</sup> [DYFODOL DISGLAIR - Ein gweledigaeth ar gyfer 2021-26 \(llyw.cymru\)](#)

gynnwys entrepreneuriaeth ym mhob agwedd ar addysg gyrfaoedd pobl ifanc wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Nod arall i Gyrfya Cymru yw gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion. Noda adroddiad Thematig Estyn<sup>20</sup> (2022) a gyhoeddwyd yn ddiweddar bwysigrwydd dysgwyr yn cael 'amrywiaeth o brofiadau ystyrion mewn dysgu, gwaith ac entrepreneuriaeth.' Mae hefyd yn argymhell bod angen i waith Gyrfya Cymru, ysgolion, cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ategu ei gilydd i sicrhau bod 'dysgwyr yn cael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer eu cynnydd tuag at gyflogaeth.' Bydd y partneriaethau hyn yn elfen allweddol o gefnogi entrepreneuriaeth yn y dyfodol.

Ystyriodd y rhanddeiliaid hefyd y byddai'r Warrant i Bobl Ifanc yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer menter mewn ysgolion yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bod y synergedd rhwng ysgolion, partneriaid cymunedol, elusennau a chyflogwyr lleol yn hanfodol i sicrhau bod grwpiau targed fel NEET yn gallu ymgysylltu â'r rhaglen. Nodwyd hefyd, lle mae rhwydweithiau menter lleol yn cael eu datblygu rhwng ysgolion cynradd (fel Her Menter Ysgolion Cynradd Abertawe) y gall hyn annog partneriaethau cynaliadwy gyda busnesau a mynd i'r afael â rhwystrau megis amser, cost a theithio. Dywedodd y rhanddeiliaid fod gan y gweithgareddau hyn y potensial i ategu gweithgareddau cenedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

### Effaith COVID mewn Ysgolion

Yn yr un modd â darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau, cyfyngwyd ar ddarpariaeth y Criw Mentrus mewn ysgolion cynradd a gweithdai Ysbrydoli / Archwilio mewn ysgolion uwchradd gan gau ysgolion a chyfyngiadau eraill yn ymwneud â COVID. Cafodd y cystadlaethau Criw Mentrus rhanbarthol a chenedlaethol eu canslo yn ystod 2020 ond cawsant eu hailgyflwyno fel digwyddiadau ar-lein yn ystod 2021. Cafodd cyllid a fyddai wedi'i ddyrannu i gefnogi'r digwyddiadau hyn ei ailgyfeirio tuag at ddatblygu adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant menter ar-lein ar gyfer ymarferwyr ysgol.

Amharwyd ar weithdai Ysbrydoli a Syniadau wedi'u harwain gan fodolau rôl hefyd yn sgil cau ysgolion. Fodd bynnag, yn fuan iawn newidiwyd y ddarpariaeth o sesiynau Modelau Rôl i sesiynau ar-lein neu wedi'u recordio a gyflwynwyd ar sgriniau. Addasodd y rhan fwyaf o Fodelau Rôl yn dda i'r ffordd hon o ddarparu sesiynau ond dywedwyd ei bod yn fwy heriol rhyngweithio'n dda â chynulleidfaoedd o bobl ifanc ar-lein. Nododd staff Syniadau Mawr Cymru hefyd nad oedd bob amser yn bosibl cofnodi faint o bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan mewn sesiynau gweithdy Modelau Rôl a ddarparwyd ar-lein.

Rhoddir trosolwg cryno o'r effaith a gafodd COVID ar ddarparu holl wasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn Nhabl 3.3 isod.

**Tabl 3.3 Effaith COVID-19 ar Ddarparu Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru – ar draws pob lleoliad addysg**

DPA	Ebrill i Dachwedd 2019	Ebrill i Fawrth 2020	Ebrill i Dachwedd 2020	Effaith Rifiadol - cymhariaeth	% yr Effaith	

<sup>20</sup> [Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfya Cymru | Estyn \(llyw.cymru\)](#)



				Ebrill Dachwedd		
Cyfanswm y Bobl Ifanc sy'n Ymgysylltu	51529	74,761	18,022	33,507	65.02	Gostyngiad o 65%
Cyfanswm y gweithdai	1683	2428	537	1146	68.09	Gostyngiad o 68%
Cyfanswm y Bobl Ifanc â Diddordeb mewn dechrau busnes	8581	12707	6104	2,477	28.9	Gostyngiad o 29%
Cyfanswm y bobl ifanc sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen ddigwyddiadau	547	630	748	-201	-36.74	Cynydd o 37%
Cyfanswm y bobl ifanc sy'n cael eu meithrin i ddechrau busnes	329	536	289	40	12.16	Gostyngiad o 12%
Cyfanswm y bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes	51	76	70	-19	-37.25	Cynydd o 37%

- Effeithiwyd yn sylweddol ar y ddarpariaeth wyneb yn wyneb oherwydd i'r ysgolion, colegau a phrifysgolion gau - o orgyflawni'n hanesyddol mewn perthynas â'r targed perfformiad hwn, bu gostyngiad o 65% yn ystod y cyfnod hwn
- Diddorol yw nodi bod **perfformiad y rhaglen digwyddiadau wedi cynyddu 37%** wrth iddynt ddod yn fwy hygyrch yn sgil cynnal y sesiynau'n rhithwir. Galluogodd sesiynau rhithwir hefyd i nifer o bobl ifanc fynychu sesiynau a gynhaliwyd y tu allan i'w rhanbarth. Arweiniodd hyn at fanteision mawr i'r rhaglen a newidiodd y ddarpariaeth mewn ffordd gadarnhaol. O ganlyniad mae nifer y bobl ifanc sy'n dechrau busnes wedi cynyddu 12%

### 3.4 Cefnogi menter y tu allan i fyd addysg

Ochr yn ochr â chefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc mewn ysgolion ac addysg bellach ac uwch, mae Syniadau Mawr Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol amrywiol y tu allan i fyd addysg. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol Cymru gyfan fel Clybiau Ffermwyr Ifanc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ogystal â sefydliadau partner llai sy'n chefnogi grwpiau penodol o bobl ifanc fel y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd. Mae Syniadau Mawr Cymru hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymorth cyflogaeth a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru.

Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn cyflwyno eu gweithgareddau menter eu hunain gyda'r nod o gyflwyno entrepreneuriaeth i'r bobl ifanc y maent yn eu chefnogi. Yna mae cynrychiolwyr Syniadau Mawr Cymru yn amlinellu'r gwasanaethau y gallant eu cynnig a sut y gall y rhain ategu'r rhai a ddarperir eisoes gan y sefydliad partner. Efallai y bydd cynrychiolwyr Syniadau Mawr Cymru wedyn yn cael y cyfle i gynnal sesiwn gyda phobl ifanc a gefnogir gan sefydliadau. Gall y sesiynau hyn fod ar ffurf cyflwyniadau yn amlinellu'r gwasanaethau sydd

ar gael e.e. cymorth un-i-un drwy'r Bwtcamps neu gallant fod yn sesiwn gweithdy a gyflwynir gan un o'r Modelau Rôl.

Un o dargedau'r rhaglen oedd cynyddu ymgysylltiad â phartneriaid y tu allan i fyd addysg a gellir gweld cynnydd mewn gweithdai a ddarperir i sefydliadau y tu allan i fyd addysg o 2016 (68% o'r targed) hyd at 2019-20 (lle yr aeth uwchlaw'r targed o 350 a weithdai archwilio/wedi'u teilwra ar gyfer sefydliadau y tu allan i fyd addysg). Yna gostyngodd y lefel ymgysylltu yn 2020-21 oherwydd Covid (68%), gan gynyddu eto i 86% yn 2021-22 [Allbynnau Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuencid o Ddechrau i Ddiwedd Cyswllt].

Felly mae Syniadau Mawr Cymru wedi gwneud cynnydd, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr ymgysylltu hwn yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau unigol ac yn aml nid oes dull strategol cyd-gysylltiedig ar lefel genedlaethol neu ranbarthol a gwaith partneriaeth cyson. Byddai cefnogi entrepreneuriaid ifanc y tu allan i fyd addysg felly yn elwa o strategaeth ymgysylltu wedi'i chynllunio yn hytrach nag ymateb i geisiadau am gymorth ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried ar gyfer fersiynau o'r rhaglen yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid yn adran 2.1, mae'r Warrant i Bobl Ifanc bellach yn sbardun allweddol i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid roi cymorth pellach i bobl ifanc y tu allan i fyd addysg er mwyn ymgysylltu â gweithgareddau menter. Mae potensial y Warrant i Bobl Ifanc drwy Syniadau Mawr Cymru i gyflawni hyn serch hynny yn dibynnu ar i ba raddau y gall Syniadau Mawr Cymru barhau i ddatblygu perthnasoedd gwaith gyda grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli pobl ifanc y tu allan i'r byd addysg.

Mae cyfweliadau â chynrychiolwyr AB ac AU yn dangos bod sefydliadau yn gyffredinol yn agored i'r syniad o ymgysylltu mwy â phobl ifanc y tu allan i fyd addysg, fodd bynnag prin oedd yr enghreifftiau amlwg a gynigiwyd o sut y mae sefydliadau'n mynd ar drywydd y cyfleoedd hyn y tu hwnt i weithgareddau ehangu mynediad safonol gyda rhai o'r partneriaid a amlinellwyd uchod a grwpiau cymunedol. Ymhlith yr heriau a amlinellwyd gan gynrychiolwyr mae amser ac adnoddau a diffyg manau a rennir.

### 3.5 Cefnogi'r ecosystem entrepreneuriaid

Er mwyn meithrin entrepreneuriaeth drwy gefnogi unigolion ar hyd y daith o ymwybyddiaeth o gyfleoedd menter i ddechrau busnes a chynaliadwyedd, mae angen mewnbwn a chefnogaeth gan ystod o unigolion a sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y llywodraeth, addysg a'r byd academaidd, partneriaid cymunedol, darparwyr cyllid a'r gymuned entrepreneuriaid bresennol. Cyfeirir yn aml at y rhyngweithio a'r dibyniaethau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) rhwng y grwpiau hyn fel yr ecosystem entrepreneuriaeth.

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod gan Gymru ecosystem entrepreneuriaid gymharol gydgysylltiedig o gymharu â rhanbarthau eraill y DU. Roedd hyn, yn eu barn nhw, yn rhannol oherwydd bod Cymru'n gymharol fach yn ddaearyddol a'r cysylltiadau rhwng sefydliadau a chyrff sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod lle i wella a bod angen parhaus i sefydlu cysylltiadau newydd yn ogystal â chryfhau'r rhai presennol i gefnogi rhagor o gyfnewid gwybodaeth a lleihau rhai meysydd ble roedd cymorth wedi'i ddyblygu. Nodwyd hefyd y dylai ecosystem entrepreneuriaid Cymru fod â chyrhaeddiad byd-eang ac nid cael ei chyfyngu i ffiniau Cymru.

Cefnogir datblygiad yr ecosystem entrepreneuriaeth ieuencid ehangach yng Nghymru drwy'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth a ariennir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid

ac a ddarperir gan Syniadau Mawr Cymru ond fel elfen annibynnol o'i gwasanaethau craidd. Rhwng 2017 a 2021 daeth prosiect y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth â sefydliadau amrywiol ynghyd gan gynnwys darparwyr, addysgwyr, strategwyr, entrepreneuriaid a chynghorwyr i gydweithio a chefnogi'r gwaith o:

- Gynnal 44 o Ddigwyddiadau Cyfnewid Gwybodaeth – a fynychwyd gan 1084 o bartneriaid
- Creu 72 o adnoddau i'w rhannu
- Rhannu 137 o enghreifftiau o arferion gorau<sup>21</sup>

Nododd gwerthusiad allanol o'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth (2021) hefyd fod y gwasanaeth wedi "dod â phawb at ei gilydd a rhannu gwybodaeth." Nododd y gwerthusiad hefyd nifer o gryfderau sy'n gysylltiedig â'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth gan gynnwys:

- Dylanwad cadarnhaol ar addysg fenter o fewn AB/AU
- Dylanwad ar 'gyfranwyr allweddol' o wahanol sectorau a rhanbarthau
- Meddwl yn gydgysylltiedig sydd wedi cyfrannu at rôl arweinyddiaeth ryngwladol ar gyfer entrepreneuriaeth yng Nghymru
- Effeithiol o ran rhwydweithio â phartneriaid
- Galluogi arfer gorau i gael ei rannu, gan greu cyfeiriad cenedlaethol i Gymru

Nododd aelodau o dîm darparu gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru eu bod, yn eu barn nhw, wedi llwyddo i ddarparu'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth fel gwasanaeth diduedd. Nodwyd bod hyn wedi bod yn heriol a bod angen penodi aelod penodedig o'r tîm i fod yn bennaf cyfrifol am gydlynw gweithgareddau'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth. Dywedwyd bod cydlynwdd y Gyfnewidfa wedi gadael ei swydd o fewn Syniadau Mawr Cymru a chanfuwyd bod hyn wedi gadael bwch yn y rôl arweinyddiaeth gan olygu nad oedd gan y gwasanaeth gyfeiriad na phwrpas clir.

Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod cael prosiect sy'n cael ei ddarparu hyd braich i Syniadau Mawr Cymru ond sydd hefyd yn cael ei ariannu o dan yr un faner â gwasanaethau eraill Syniadau Mawr Cymru yn cyfyngu ar y graddau y caiff ei ystyried yn brosiect annibynnol.

Cydnabuwyd hyn yn y farn a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid a nododd fod y Gyfnewidfa wedi esblygu ers ei chyflwyno yn 2016/17. Er enghraifft, dechreuodd y Gyfnewidfa fel gwasanaeth cymorth i gyfnewid gwybodaeth, ac yn fwy diweddar mae wedi bod yn llwyfan i roi llais i bobl ifanc. Mae'r newidiadau hyn mewn ffocws wedi bod yn fuddiol o ran gallu'r Gyfnewidfa Addysg i fod yn ystwyth ac ymatebol i anghenion, ond ar yr un pryd mae peidio â chael amcan clir sy'n seiliedig ar ganlyniadau wedi achosi rhywfaint o ddryswch o ran 'beth yw' y Gyfnewidfa neu 'beth maen ei wneud'.

*'Mae'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth yn dod â'r holl brif sefydliadau ynghyd; mae ei gwefan yn dda er mwyn mapio'r daith fenter, ond nid yw'n glir o hyd ynglŷn â'i diben. Mae wedi chwythu ei blwch braidd ac mae angen mwy o ddiffiniad. Mae angen canolbwyntio mwy ar bobl ifanc o ran datblygu sgiliau, rhwydweithio a set sgiliau.'* Rhanddeiliad

Mae'r safbwyntiau hyn yn adleisio'r rhai a gyflwynwyd yn y gwerthusiad allanol o'r Gyfnewidfa a nododd fod rhywfaint o ddryswch ynghylch y rhyng-gysylltiad rhwng Syniadau

---

<sup>21</sup> Gwerthusiad allanol o'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth a gynhaliwyd gan CARP Collaborations 2021

Mawr Cymru, Llywodraeth Cymru, y Gyfnewidfa Entrepreneuriaidd a mentrau blaenllaw eraill. Roedd rhai o'r amcanion yn aneglur, gan arwain at ddyblygu.

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod angen parhaus am wasanaeth fel y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad o'r farn y dylai'r Gyfnewidfa barhau i gydlynu ac archwilio dulliau cyd-gysylltiedig o ymdrin â gweithgareddau entrepreneuriaeth yng Nghymru a sicrhau bod gan y rhain gysylltiad clir â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi bod y Gyfnewidfa mewn sefyllfa ddelfrydol i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, o ran darparu hyfforddiant a DPP i staff mentor mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion neu weithredu fel hwylusydd i archwilio cyfleoedd i gael mynediad at adnoddau i gefnogi'r math hwn o hyfforddiant.

Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd yr angen i gefnogi ymarferwyr addysgu i gyflwyno mwy o addysg fenter o fewn eu sefydliadau yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd. Fel y nodwyd yn adran 2.5, ymddengys fod galw mawr ymhlith ymarferwyr am adnoddau addysgu ar gyfer mentor. Awgrymwyd felly y gallai'r Gyfnewidfa fod yn llwyfan ar gyfer cyfnewid gwybodaeth o'r natur hon.

Mae'n ymddangos bod yr awgrymiadau hyn ar gyfer rôl y Gyfnewidfa yn y dyfodol a gynigir gan randdeiliaid ac argymhellion o werthusiadau blaenorol wedi'u hanelu at gefnogi ecosystem fwy cydlynol.

Mae darparu'r Gyfnewidfa o fewn gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru wedi parhau i fod yn heriol gan nad yw'n gallu cael y dylanwad sydd ei angen ar bartneriaid eraill. Gyda hyn mewn golwg, dylid ystyried symud prosiect y Gyfnewidfa o bortffolio Syniadau Mawr Cymru a'i wneud yn brosiect mewnol i'w gyflawni gan Lywodraeth Cymru ei hun. Gallai hyn alluogi'r Gyfnewidfa i adeiladu ymhellach ar ei heffaith gadarnhaol o bennu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer entrepreneuriaeth yng Nghymru.


### **3.5.1 Y defnydd o dechnoleg ddigidol yn y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid**

Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol i drefnu a darparu gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi deillio o'r angen i roi'r gorau i ryngweithio wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig. Mae'r adran hon yn ystyried manteision a chyfyngiadau defnydd parhaus o dechnoleg ddigidol yng nghyd-destun gwasanaethau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid mewn perthynas â chost (yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn dod i ben) yn ogystal â chyrhaeddiad, effeithlonrwydd a gwerth ac effaith y gwasanaethau a ddarperir.

Mae llawer o'r pwyntiau hyn sy'n ymwneud â chyflwyno gweithgareddau Modelau Rôl yn ddigidol eisoes wedi'u trafod yn gynharach yn adran 2.3. Fodd bynnag, mae technoleg ddigidol wedi'i defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eraill y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a Syniadau Mawr Cymru. Mae offer digidol fel hysbysebion Google yn ogystal â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter ac Instagram wedi dod yn nodwedd allweddol o ran y ffordd y mae'r rhaglen Syniadau Mawr Cymru yn hyrwyddo ei gwasanaethau ac yn ymgysylltu â phobl ifanc. Ymddengys fod y defnydd o dechnoleg ddigidol yn y modd hwn wedi gweithio'n dda hyd yma ac mae'n debygol o barhau i gael ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo yn y dyfodol.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y cynnydd yn nifer y dilynwyr ar Twitter ac Instagram yn ystod y rhaglen (2016-2021). Mae cyfanswm y dilynwyr ar Facebook hefyd wedi aros yn gyson ar

draws y rhaglen ac yn dangos mai Facebook yw'r sianel cyfryngau cymdeithasol a ffefirir ar hyn o bryd o ran nifer y dilynwyr - gyda 209,000 yn ei dilyn o gymharu â 136,000 ar Twitter a thua 50,000 o ddilynwyr ar Instagram. Mae nifer unigryw'r ymwelwyr â gwefan Syniadau Mawr Cymru wedi bod yn gyson uwch na 40,000 ers 2018-19, gan gyrraedd uchafbwynt o 61,000 yn 2021-22, sy'n dangos cynnydd yn y traffig i'r wefan ar draws y rhaglen. Yn yr un modd, mae cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau wedi bod yn gyson uwch na 90,000 ers 2018.



Ffynhonnell: Monitro data digidol Syniadau Mawr Cymru

Mae Bwtcamps Entrepreneuriaeth yn gyrsiau preswyl (un yn y gogledd ac un yn y de) a ddarperir drwy Syniadau Mawr Cymru i bobl ifanc sydd yn y broses o ddechrau busnes. Cyn y pandemig byddai tua 30 i 50 o bobl ifanc yn mynychu pob un o'r digwyddiadau hyn ac yn treulio penwythnos gyda'i gilydd yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau gyda'r nod o roi'r hyder a'r gallu iddynt gymryd y cam tuag at ddechrau eu busnes eu hunain.

Yn ystod y pandemig daeth y cyrsiau preswyl hyn i ben ond cyflwynwyd cyfres o ddigwyddiadau ar-lein byrrach i gymryd eu lle. Roedd y digwyddiadau byrrach ar-lein yn cynnig cyfle i drefnu sesiynau wedi'u teilwra i grwpiau penodol e.e. siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc ag anableddau. Nododd trefnwyr digwyddiadau fod targedu sesiynau at grwpiau penodol yn gweithio'n dda gan fod y rhai a oedd yn bresennol yn gallu uniaethu'n dda â'i gilydd a gallent drafod a mynd i'r afael â materion yr oeddent yn teimlo eu bod yn benodol berthnasol iddyn nhw. Roedd cyflwyno sesiynau ar-lein hefyd yn galluogi rhai pobl ifanc na fyddent fel arall yn gallu mynychu digwyddiad bwtcamp ar benwythnos, neu na fyddent yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny, i gymryd rhan.

Nododd trefnwyr digwyddiadau hefyd, er bod cyflwyno sesiynau bwtcamp ar-lein yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac yn gallu ehangu cyfranogiad a chyrhaeddiad, nad ydynt yn cynnig yr elfen ryngweithio ymdrochol y gall cwrs preswyl ei gynnig. Nawr bod cyfyngiadau Covid wedi llacio, y nod yw dychwelyd i drefnu'r ddau bwtcamp penwythnos blynyddol fel o'r blaen, ond sicrhau bod y rhain yn cyfateb â chyfres o ddigwyddiadau ar-lein byrrach ond wedi'u targedu i adeiladu ar y canlyniadau cadarnhaol a nodir uchod.

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid hefyd at wefan Syniadau Mawr Cymru fel adnodd da a gwerthfawr. Mae'r rhanddeiliaid hyn hefyd yn ystyried bod y wefan yn 'ddeniadol' a 'pherthnasol' i'r rhan fwyaf o bobl ifanc. Awgryma astudiaeth a gynhaliwyd gan Chwarae Teg ar gyfer Busnes Cymru fod gwefan Syniadau Mawr Cymru yn dda yn gyffredinol o ran cyflwyno rhywedd drwy ddelweddau ond nododd yr astudiaeth rai rhannau o'r wefan lle mae nifer fwy o gynrychiolwyr gwrywaidd i'w gweld o gymharu â rhai benywaidd.

Mae technoleg ddigidol hefyd wedi cael ei defnyddio, yn enwedig yn ystod y pandemig i alluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn digwyddiadau y byddent fel arfer yn eu mynychu'n bersonol – gweler yr enghraifft o bŵtcamp y cyfeirir ato uchod ac mae hefyd wedi galluogi ymgysylltu amlach rhwng Pencampwyr Entrepreneuriaeth fel rhan o'r rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth. Nodwyd enghreifftiau tebyg hefyd mewn perthynas â chynnal digwyddiadau'r gystadleuaeth Criw Mentrus i ysgolion cynradd. Nododd y gwerthusiad o'r Criw Mentrus mai'r prif fanteision ar gyfer cyflwyno'r digwyddiadau hyn yn ddigidol oedd ei fod yn cael gwared ar gostau teithio ac athrawon cyflenwi, gan ei gwneud yn haws i ysgolion gymryd rhan. Fodd bynnag, nododd y gwerthusiad hefyd mai prif anfantais cynnal cystadleuaeth ddigidol oedd nad oedd dysgwyr a gymerodd ran yn ei ystyried yn 'achlysur mawr' a byddai hyn yn ei dro yn ei wneud yn llai cyffrous ac ysbrydoledig.

Fel rhan o'r rhaglen Criw Mentrus, roedd technoleg ddigidol hefyd yn gyfle i rannu a chyfnewid gwybodaeth gan gynnwys adnoddau addysgu, drwy'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth – gweler adran 2.7. Argymhellodd yr adroddiad gwerthuso y dylid defnyddio adnoddau, a ryddhawyd drwy gyflwyno digwyddiadau ar-lein, i gefnogi mwy o adnoddau dosbarth digidol a llwyfan i rannu arfer da ac i gyflwyno DPP ar-lein i ymarferwyr.



## 4. Casgliadau ac argymhellion

Mae ymchwil a safbwyntiau'r rhanddeiliaid yn dangos bod y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid wedi dod yn fwy hyblyg ac ymatebol ers ei lansio yn 2016. Mae'n gweithredu - ac yn cael effaith - ar lefel leol a rhanbarthol yn ogystal â chysylltu â pholisïau cenedlaethol allweddol a sbardunau economaidd a chymdeithasol. Mae wedi cysylltu'n llwyddiannus â pholisïau blaenorol fel Ffyniant i Bawb ac mae'r hyblygrwydd a'r gefnogaeth ar gyfer dulliau partneriaeth cyd-gysylltiedig yn dangos bod gan y rhaglen y potensial i gefnogi polisi presennol Llywodraeth Cymru a'i pholisi yn y dyfodol, yn enwedig y Warrant i Bobl Ifanc. Mae hefyd yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i hyn ddod yn rhan annatod o bolisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y llywodraeth - gan gynnig y cyfle i gysylltu menter â nodau allweddol megis Cymru lewyrchus a Chymru sy'n fwy cyfartal.

### 4.1 Cynydd Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid yn erbyn y 4 elfen: Ymgysylltu

Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid wedi rhagori ar ei thargedau ymgysylltu mewn perthynas â chyrraedd lleoliadau addysg i hyrwyddo gweithgareddau menter a gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru. Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol fel y dangosir yn adran 2.8, wedi cefnogi'r gwaith o farchnata a hyrwyddo'r Rhaglen yn effeithiol. Mae Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru hefyd wedi chwarae rôl ymgysylltu bwysig a dylanwadol ac wedi cael ei chroesawu'n frwd gan bobl ifanc ac ymarferwyr.

Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid hefyd wedi cefnogi ymgysylltiad â rhai pobl ifanc y tu allan i fydd addysg drwy weithio gyda sefydliadau partner er bod cyrhaeddiad a chwmpas yr ymgysylltu hwn yn llai cyson ar lefel AB ac AU. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod perthnasoedd rhwng Syniadau Mawr Cymru a sefydliadau partner yn aml yn gryfach ar lefel leol nag y maent ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Gall y Warrant i Bobl Ifanc fod yn sbardun i annog rhagor o ymgysylltu a chefnogaeth i bobl ifanc y tu allan i fydd addysg, gan roi mwy o bwyslais ar y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid a chanolbwyntio ar gefnogi entrepreneuriaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a rhoi cyfle cyfartal wrth wraidd gweithgareddau menter y dyfodol.

#### Argymhelliad 1:

Byddai cynllun ymgysylltu yn cynyddu gwerth yr Ymgrych Syniadau Mawr Cymru i'r eithaf ac yn ei chryfhau fel y gwasanaeth blaenllaw sy'n cefnogi entrepreneuriaeth ieuencid yng Nghymru. Dylai Contractwyr yr ymgrych yn y dyfodol flaenoriaethu a chryfhau gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru er mwyn gweithio mewn dull mwy cydweithredol, yn enwedig i gefnogi entrepreneuriaid ifanc y tu allan i fydd addysg.

Mae'r Modelau Rôl wedi bod yn elfen hynod gadarnhaol o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid a dylent fod yn rhan annatod o ddyfodol y rhaglen. Serch hynny, mae sawl maes lle y gellid gwella eu heffaith. Dylid ymdrechu i fynd i'r afael â phrinder mewn rhai sectorau megis TGCh ac adeiladu yn ogystal â datblygu Modelau Rôl mewn menter gymdeithasol. Byddai hyfforddiant ychwanegol i alluogi Modelau Rôl i ddarparu cymorth dilynol a chyfeirio pobl at y rhai sy'n dangos diddordeb uniongyrchol mewn mynd ar drywydd cyfleoedd entrepreneuriaeth neu hunangyflogaeth yn helpu i gynnal eu rôl. Gellid hefyd ystyried eu



hymgysylltiad ag elfennau eraill o ddarpariaeth entrepreneuriaeth Llywodraeth Cymru, e.e. grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wella gwerth am arian.

Gall cronfa ddata wedi'i hwyluso helpu i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn perthynas â threfnu Modelau Rôl. Mae taliadau yn elfen bwysig o gefnogi gwaith y Modelau Rôl a dylid parhau â'r rhain. Yn y dyfodol, efallai mai dull cyfunol fydd yn gweithio orau, a fydd yn cynnwys mentora digidol wedi'i dargedu at sectorau a grwpiau penodol ynghyd ag ymgysylltiad mwy cyffredinol ac ar gyfer disgyblion iau drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**Argymhelliad 2:** Dylai Modelau Rôl barhau i fod yn elfen annatod o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid a dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu potensial i ymgysylltu â chynulleidfaedd ehangach ar draws darpariaeth y rhaglen yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3:** Mae cyfleoedd i unrhyw un o gontractwyr Syniadau Mawr Cymru yn y dyfodol wella cyfathrebu â'r rhwydwaith modelau rôl. Gallai hyn gynnwys nodi sectorau lle ceir prinder, hyfforddiant a sefydlu, diweddariadau rheolaidd ar y lleoliadau addysg y maent yn gweithredu ynddynt, cyfeirio pobl ifanc at y cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad â Syniadau Mawr Cymru.

## 4.2 Cynnydd y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn erbyn y 4 elfen: Grymuso

Mae'r model ACRO (Agwedd, Creadigrwydd, Perthnasau a Threfniadaeth) wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer grymuso pobl ifanc, yn enwedig y rhai o oedran addysg orfodol, gyda'r sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i fod yn entrepreneuriaid. Mae'r Criw Mentrus wedi ymgorffori'r model ACRO yn effeithiol o fewn rhaglen y gystadleuaeth; ond gellir gwella lefel a chyrhaeddiad cyfranogiad ysgolion. Nid yw cystadleuaeth fenter a oedd wedi'i hanelu at ysgolion uwchradd - Dathlu Syniadau Mawr - bellach yn cael ei chynnal drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, er bod cystadlaethau menter tebyg a hwylusir gan sefydliadau eraill dal ar gael.

**Argymhelliad 4:** Mae cystadleuaeth y Criw Mentrus wedi darparu llwyfan da i arddangos cyflawniadau ysgolion yn y maes menter; fodd bynnag, dylai darpariaeth y dyfodol ystyried ai cystadleuaeth yw'r dull cywir o gofio'r angen i gyrraedd mwy o ysgolion a sicrhau bod cymorth i athrawon yn cyd-fynd ag anghenion y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 5:** Mae angen cefnogi athrawon gydag ystod o adnoddau i'w helpu i roi dealltwriaeth i'w myfyrwyr o fusnes, datblygu sgiliau entrepreneuriaeth a chysylltu'r sgiliau hyn â'u hopsiynau gyrfa. Gall y rhain hefyd gefnogi AB ac AU lle mae'r cyfrifoldeb am Rymuso yn nwylo'r sefydliad drwy'r system addysg.

Nododd rhanddeiliaid y diffyg ymgysylltu cyson ag ysgolion ledled Cymru ac roeddent o'r farn bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer fersiynau or Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar gynaliadwyedd a chysylltedd teithiau dysgwyr drwy'r cynradd i'r uwchradd ac ymlaen i addysg bellach ac uwch i fynd i'r afael â bylchau canfyddedig yn y ddarpariaeth.

Mae'r cwricwlwm newydd felly'n cynnig potensial i'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid drwy addysg gyrfaoedd a byd gwaith a datblygu dysgwyr creadigol, arloesol a moesegol. Gallai'r pwyslais ar fenter sydd wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm newydd awgrymu y bydd hyn ynddo'i hun yn creu'r momentwm sydd ei angen i sicrhau bod gweithgareddau menter yn cael eu hymgorffori mewn ysgolion ledled Cymru, ac felly efallai na fydd angen cymorth

ychwanegol drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid mwyach. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod angen cymorth ar lawer o ymarferwyr ysgol i'w galluogi i ddarparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio mwy ar fenter yn eu sefydliadau.

O'r herwydd, ar gyfer y cylch nesaf o Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, mae'n debygol y bydd angen darparu cymorth pellach i ysgolion, yn enwedig ar ffurf adnoddau addysgu i alluogi ysgolion i arwain y gwaith o gynllunio a chyflwyno entrepreneuriaeth. Felly, bydd rôl Gyrfa Cymru wrth ddylunio gwasanaeth dysgu proffesiynol i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol ym myd addysg i ddarparu addysg gyrfaoedd a byd gwaith effeithiol a chefnogi gweithrediad y canllawiau statudol yn rhagweithiol, yn allweddol.

**Argymhelliad 6:** Wrth ddylunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl Gyrfa Cymru a'r ffordd orau o gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei ymgorffori drwy'r broses o ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

Drwy'r cwricwlwm newydd mae potensial ar gyfer dull gweithredu mwy cyson a chynnig cydlynol a all gefnogi sgiliau ymarferwyr a chreadigrwydd a dyheadau entrepreneuriaid dysgwyr. Dylai hyn hefyd gael ei roi yng nghyd-destun mwy o ffocws ar gynaliadwyedd a chysylltedd teithiau menter dysgwyr drwy'r ysgol gynradd i'r uwchradd ac ymlaen i addysg bellach ac uwch. Mae dull graddol Gyrfa Cymru drwy'r grwpiau blwyddyn yn cynnig y cyfle i gynnwys entrepreneuriaeth ym mhob agwedd ar addysg gyrfaoedd pobl ifanc wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Bydd y pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a byd gwaith<sup>22</sup> a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cefnogi'r broses hon ymhellach yn ogystal â helpu i fesur cynnydd dysgwyr drwy werthuso.

Mae mwy o ffocws ar bartneriaethau lleol, hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau newydd i gefnogi mynediad at weithgareddau, llwyfannau i rannu arferion da rhwng athrawon a mentrau, ac adnoddau i sicrhau bod cyfle teg i ysgolion ledled Cymru ymgysylltu oll yn opsiynau i'w hystyried er mwyn cefnogi'r cysylltiad hwn. Mae'r dull partneriaeth hwn yn cydfynd â'r weledigaeth a amlinellir yn Adroddiad Thematig Estyn ar yrfaoedd i gyflwyno dull ategol i gefnogi dysgwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau a symud ymlaen tuag at gyflogaeth.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru yn y dyfodol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu llwybr entrepreneuriaeth cysylltiedig sy'n cefnogi pobl ifanc ar bob cam o'u datblygiad.

### 4.3 Cynnydd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn erbyn y 4 elfen:

#### Ymbaratoi

Mae'r cymorth cynghori un-i-un a ddarperir gan Syniadau Mawr Cymru, yn ogystal â'r sesiynau Bwtcamp blynyddol a ddarperir yng ngogledd a de Cymru wedi cael eu croesawu'n frwd ac wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr.

Dengys tystiolaeth gan ymchwil a gomisiynwyd gan y Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth (gweler tudalen 22) fod pobl ifanc, ar gyfartaledd, yn cymryd llawer mwy o amser i symud ymlaen o syniad busnes i ddechrau busnes o gymharu ag entrepreneuriaid hŷn. O ganlyniad, efallai y bydd rhai pobl ifanc a gefnogir drwy'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid, yn mynd ymlaen i ddefnyddio'r cymorth a gânt i ddechrau busnes yn ddiweddarach yn eu bywydau – fodd

<sup>22</sup> [Pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith \(CWRE\) \(llyw.cymru\)](#)

bynag ni fyddai hyn yn cael ei gofnodi fel canlyniad ar gyfer maes Ymbaratoi y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Yn ogystal, mae'r canfyddiadau'n dangos bod pobl ifanc sy'n defnyddio cymorth Ymbaratoi yn cael manteision sy'n ganlyniadau meddalach fel mwy o wybodaeth, hyder, a dyheadau nad ydynt yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 8:** Mae angen darparu cymorth ychwanegol drwy Syniadau Mawr Cymru i fodloni ymrwymadau polisi'r Warrant i Bobl Ifanc, sydd hefyd yn ystyried faint o amser sydd ei angen ar bobl ifanc i symud ymlaen i ddechrau busnes. Dylid felly ystyried lefel uwch o fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau a digwyddiadau cynghori a chofleidiol er mwyn sicrhau hyn.

**Argymhelliad 9:** Mae gwaith monitro a gwerthuso'r rhaglen yn cyfuno mesurau cenedlaethol a mesurau'r rhaglen sy'n dangos cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylid ystyried cofnodi set ehangach o fetrigau er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddechrau busnes, gan gynnwys canlyniadau/dangosyddion meddalach i adlewyrchu'n well ehangder y cymorth a ddarperir.

#### 4.4 Cynnydd Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid yn erbyn y 4 elfen: Galluogi

Rhagorwyd ar y targedau Galluogi ar gyfer sefydliadau AB ac AU ar draws y rhaglen ar gyfer nifer y staff sydd wedi bod yn bencampwyr entrepreneuriaeth. Mae'r mudiad Creu Sbarc yn cael rhywfaint o effaith ar gysylltu partneriaid yn yr ecosystem, yn ogystal â rhannu ymchwil ymhlith rhwydweithiau rhanddeiliaid sy'n cefnogi pobl ifanc entrepreneuriaid. Mae'r rhwydwaith Pencampwyr Entrepreneuriaeth ar draws y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch wedi bod yn rhwydwaith galluogi allweddol i wasanaethau, gan gynnwys Syniadau Mawr Cymru, i bobl ifanc yn eu sefydliadau ac yn bwynt cyfeirio.

Nod prosiect Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru yw cefnogi'r ecosystem hon ymhellach, drwy gyfnewid a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ymysg partneriaid. Serch hynny, mae wedi bod yn heriol i'r Gyfnewidfa weithredu fel elfen annibynnol o'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid tra y caiff ei darparu o dan faner Syniadau Mawr Cymru. At hynny, nid yw'n ymddangos bod gan y Gyfnewidfa rôl na chanlyniadau wedi'u diffinio'n glir ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn anodd i randdeiliaid ymgysylltu'n llawn â hi ac felly dylid ystyried dulliau cyflawni eraill.

**Argymhelliad 10:** Byddai canlyniadau gwaith galluogi'r agenda Entrepreneuriaeth leuenctid yn cael eu cyflawni'n well pe baent yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu mwy o oruchwyliaeth a photensial i gynyddu'r gwaith trawsadrannol sydd ei angen i gyflawni ymrwymadau polisi; yn ogystal â chael ei gefnogi'n weithredol gan gontractwr Syniadau Mawr Cymru y dyfodol.

#### 4.5 Meysydd eraill i'w hystyried: Dyfarniadau Grant i Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Mae'r grant Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid AB ac AU hefyd wedi'i ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau amrywiol i rymuso pobl ifanc ar draws sefydliadau drwy sgiliau a nodweddion entrepreneuriaid. Bu hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig pan gollodd llawer o bobl ifanc ar draws y sectorau addysg bellach ac addysg uwch hyder yn eu gallu a'u capasiti mewn perthynas â menter. Mae'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid

wedi rhagori ar ei thargedau o ran cyfanswm y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuriaidd (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad).

Bu grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid yn ddylanwadol wrth gefnogi colegau AB i gyflwyno ystod o weithgareddau cyd-gysylltiedig – digwyddiadau, gweithgareddau, grantiau bach a DPP i staff. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod rôl yr Pencampwr/Cydlynnydd Entrepreneuriaeth a gefnogir drwy'r grant Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid yn hollbwysig ar gyfer cydlynu cymorth ar gyfer entrepreneuriaeth mewn sefydliadau AB. Serch hynny, mae'r gwaith o ymgorffori menter ar draws colegau AB yn amrywio – lle roedd Pencampwr Entrepreneuriaeth yn ymgysylltu ag adrannau lluosog ac yn arwain gweithgareddau ar draws y coleg, mae hyn wedi arwain at well ymwybyddiaeth a chydlyniant o ran addysg fenter. Mae hwn yn ddull y dylid ei annog ar draws y sector AB yn y dyfodol ochr yn ochr â chyfleoedd DPP pellach.

Cyfle arall i gryfhau dull gweithredu AB yn y dyfodol fyddai i sefydliadau gysylltu darpariaeth y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid â'r Wobr Datblygu Gyrfa, a ddyluniwyd gan Gyrfa Cymru. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i sefydliadau AB am gyfnod o dair blynedd os ydynt yn ymrwymo i ddatblygiad hirdymor addysg gyrfaoedd drwy weithio'n agos â Gyrfa Cymru, nodi meysydd allweddol i'w datblygu a gweithredu cynllun i fynd i'r afael â'r rhain. Gallai cyfuno'r dulliau hyn arwain at gyfleoedd pellach i ymgorffori menter mewn colegau AB, a chefnogi gweithgareddau DPP hefyd.

Gellir gweld rhagor o arferion da yn y rhwydweithiau menter a ddatblygwyd ar lefel leol a rhanbarthol a gweithgareddau drwy rwydwaith y Gyfnewidfa gyda SAU. Dylid annog y mathau hyn o gydweithio ymhellach yn y dyfodol fel rhan o grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid i gefnogi ecosystemau menter rhanbarthol a chyfnewid arfer da rhwng AB ac AU. Mae rhai colegau wedi cael cyllid gan sefydliadau eraill i gefnogi eu darpariaeth a dylid annog hyn hefyd er mwyn cynnal y ddarpariaeth hon ac ychwanegu gwerth at grant y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid.

Un o brif amcanion grantiau'r Rhaglen Entrepreneuriaeth leuentid oedd cefnogi sefydliadau AB ac AU i ymgorffori gweithgareddau entrepreneuriaeth a menter yn eu sefydliadau. Ymddengys fod cynnydd tuag at hyn wedi'i gyflawni, i raddau amrywiol ar draws yr holl sefydliadau sydd wedi derbyn y grant. Fodd bynnag, dengys y canfyddiadau ei bod yn debygol y byddai'r ffocws ar weithgareddau menter a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi busnesau newydd yn y rhan fwyaf o sefydliadau yn lleihau heb y cyllid grant – mae hyn yn arbennig o wir ar draws colegau AB.

Mae'r sefyllfa ar draws SAU yn fwy amrywiol ac felly hefyd eu dibyniaeth ar y grant. I lawer o SAU, mae'r gallu i gefnogi gweithgareddau menter drwy'r grant yn eu galluogi i gael mynediad at gyllid arall fel Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Yn hyn o beth, gallai peidio â chael mynediad at y gronfa grant arwain at ostyngiad mewn cymorth ariannol arall.

Gallai'r angen parhaus hwn am y grant awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o sefydliadau AB ac AU wedi gallu ymgorffori menter yn llawn yn eu sefydliad hyd yma, neu gallai ddangos, mewn rhai achosion, eu bod yn dibynnu'n ormodol ar y grant. Mae effaith COVID a'r angen i sefydliadau ddefnyddio'r grant i gefnogi mwy o weithgareddau Galluogi yn hytrach nag Ymbaratoi hefyd wedi cyfyngu neu ohirio'r cynnydd tuag at ymgorffori menter yn eu sefydliadau.

Yng ngoleuni'r cyfyngiadau cyllido posibl wedi i ffrydiau ariannu'r Undeb Ewropeaidd ddod i ben, gallai dileu'r grant gynnig cyfle posibl i gyflwyno rhai arbedion cost yng nghylch nesaf y

Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid. Fodd bynnag, dengys y canfyddiadau y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar lawer o sefydliadau, yn enwedig colegau AB. Er nad yw pob SAU yn dibynnu ar y grant, mae rhai SAU llai yn ddibynnol arno. O'r herwydd, mae dileu'r cyllid i SAU yn debygol o gael effaith anghymesur ar rai sefydliadau o gymharu ag eraill.

Serch hynny, mae cyfleoedd posibl ar gyfer mwy o gydweithio rhwng SAU a cholegau AB i rannu arfer da a chyfleoedd ar gyfer DPP, ynghyd â chyfatebiaeth mwy effeithiol â chyllid arall sy'n cefnogi ymchwil ac arloesi ac ymrwymiad i ymgorffori menter yn eu cenhadaeth sefydliadol a'u harlwy i fyfyrwyr.

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig, yn anelu at ddarparu system addysg drydyddol i gefnogi dull mwy strategol, cydlynol ac effeithlon ar draws y sector. Yn yr un modd â'r diwygiadau i'r cwricwlwm ysgol, bydd y sector yn cael ei gefnogi i helpu dysgwyr i dyfu fel dinasyddion ymroddedig a mentrus, gan gyfrannu at ffyniant a llesiant cenedlaethol ac unigol, yn unol â rhai o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Felly bydd ffocws cryf y Rhaglen Entrepreneuriaeth leuenctid ar y sectorau AB ac AU yn cynnig y cyfle i wella cymorth sector cyfan ar gyfer entrepreneuriaeth yn y dyfodol. Pe bai cyllid ychwanegol ar gael, byddai hyn yn helpu i adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd hyd yma ym mhob sector, gan sicrhau mwy o gynaliadwyedd a chysondeb o ran cyfleoedd ar draws y ddau sector gan fynd i'r afael ag anghenion penodol a chanlyniadau a ddymunir yn y ddau sector.

**Argymhelliad 11:** Dylai unrhyw gyllid yn y dyfodol adlewyrchu gwahanol ddeilliannau entrepreneuriaeth AB ac AU, gyda chymorth i AB yn integreiddio â chymorth presennol ar gyfer dilyniant pobl ifanc drwy bwyntiau pontio a dylai cymorth mewn AU ganolbwyntio ar arfogi'r rhai sydd agosaf at ddechrau busnes ac ar ôl graddio.

**Argymhelliad 12:** Dylai cymorth yn y dyfodol i sefydliadau AB ac AU atgyfnerthu'r angen i sefydliadau arwain yr agenda ac ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu harlwy cyffredinol i fyfyrwyr a graddedigion.

#### **4.6 Meysydd eraill i'w hystyried: yr ecosystem entrepreneuraidd (galluogi'r ecosystem)**

Gallai cymorth i fentrau cymdeithasol yn y dyfodol fod yn ffactor allweddol i adlewyrchu ymhellach gymhellion pobl ifanc i ddechrau busnes a'r cyd-destun sy'n datblygu o amgylch Busnes Cymdeithasol Cymru. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer ymyriadau penodol i Gymru, er enghraifft, yn gysylltiedig â 'chryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol' ochr yn ochr â chefnogi hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel a buddsoddi mewn cyfalaf dynol a chynyddu cyfleoedd bywyd. Mae busnesau cymdeithasol yn elfen bwysig a deinamig o economi Cymru ac yn cefnogi swyddi lleol, talent a buddsoddiad mewn cymunedau. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Beaufort ac OB3 (2017) yn dangos bod 1 o bob 10 entrepreneur ifanc yng Nghymru yn arloeswyr cymdeithasol. Mae'r rhain yn 'unigolion uchelgeisiol sy'n cael eu denu at redeg eu busnes eu hunain er mwyn sbarduno



newid cymdeithasol a gwneud gwahaniaeth i'w cymuned a'u cleientiaid, a hynny wrth wneud bywoliaeth gyffyrddus".<sup>23</sup>

Dylai cymorth i bobl ifanc felly barhau i hyrwyddo cyfleoedd menter gymdeithasol o fewn yr ecosystem entrepreneuriaidd. Er enghraifft, bydd y Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc ar gael tan 2025 i alluogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddechrau eu busnes eu hunain, creu menter gymdeithasol, dod yn hunangyflogedig, dod yn weithwyr llawrydd neu'n entrepreneur cymdeithasol yng Nghymru.

O ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae potensial i gymorth entrepreneuriaeth i bobl ifanc yn y dyfodol gael ei gysylltu â'r meysydd allweddol o ffocws cyllid ar gymunedau a lle, cefnogi busnesau a phobl a sgiliau. Bydd cyfleoedd hefyd i gefnogi entrepreneuriaeth ieuencid drwy seilwaith presennol y Fargen Ddinesig a dyraniadau i awdurdodau lleol yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddiad Rhanbarthol. Fel rhan o ddull partneriaeth lleol a rhanbarthol a anogir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gall Syniadau Mawr Cymru chwarae rhan bwysig yn y dyfodol o ran cefnogi prosiectau'r Gronfa.

Yn yr un modd, gallai Rheolwyr Partneriaethau'r Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth gydlynu ecosystem ehangach wrth i fwy a mwy o brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn menter ac entrepreneuriaeth ddod i'r amlwg. Gall y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi Llywodraeth Cymru (2021). Nod hyn yw cefnogi diwylliant entrepreneuriaidd drwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer hunangyflogaeth drwy 'Ymrwymiad Covid', a grantiau hunangyflogaeth newydd, sy'n cynnig hyd at £2,000 i gefnogi busnesau newydd drwy Busnes Cymru. Mae'r Genhadaeth hefyd yn ceisio helpu i ailadeiladu, tyfu a chryfhau'r sector menter gymdeithasol er mwyn sicrhau mai dyma'r 'model a ffeirir yn naturiol' gan entrepreneuriaid sy'n darparu atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid y dyfodol yn cyd-fynd â "Trawsnewid Cymru drwy Fenter Gymdeithasol" i sicrhau ei bod wedi'u hymgorffori ar draws pob maes cyflawni.

#### **4.7 Meysydd eraill i'w hystyried: Technoleg Ddigidol (technoleg ddigidol yn galluogi darpariaeth yn y dyfodol)**

Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gydlynu a chyflwyno gweithgareddau a ariennir gan y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mewn llawer o achosion o ganlyniad uniongyrchol i ryngweithio cyfyngedig wyneb yn wyneb a fu'n angenrheidiol oherwydd y pandemig. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn amlinellu enghreifftiau lle mae technoleg ddigidol wedi'i defnyddio'n effeithiol ac wedi cynhyrchu enillion effeithlonrwydd yn y broses. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at gynulleidfaoedd ehangach i hyrwyddo gwasanaethau yn ogystal â darparu rhai meysydd cymorth penodol.

Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn nodi y byddai darparu gwasanaethau megis sesiynau Modelau Rôl yn ddigidol ar-lein yn annhebygol o arwain at enillion cost effeithlonrwydd sylweddol ond y byddai'n debygol o leihau'r effaith a gynhyrchir gan y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, gellid sicrhau enillion effeithlonrwydd drwy gyflwyno mwy o'r sesiynau hyfforddi Modelau Rôl ar-lein, a gallai defnydd pellach o dechnoleg ddigidol helpu

<sup>23</sup> Gwaith Ymchwil i Ddyheadau Entrepreneuriaid Ifanc Beaufort ac OB3 (2017) – Adroddiad Terfynol

i ymestyn cyrhaeddiad ac argaeledd rhai gwasanaethau arbenigol e.e. y rhai sy'n gysylltiedig â sectorau twf o fewn yr economi ranbarthol neu genedlaethol.

**Argymhelliad 14:** Dylai gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid y dyfodol ystyried dull cyflawni hybrid, gan ddefnyddio darpariaeth ddigidol lle y gall wella darpariaeth, ysgogi arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, a chynyddu cyrhaeddiad cymorth a chyfranogiad arbenigol ledled Cymru.